# CYFRIFON BLYNYDDOL 2022-23

CYMWYSTERAU CYMRU
QUALIFICATIONS WALES

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys


**Adroddiad ar Berfformiad** ..... **3**

**1. Trosolwg** ..... 3

**1.1 Cwmpas y cyfrifoldeb** ..... 3

**1.3 Cefndir a swyddogaethau statudol** ..... 3

**1.4 Crynodeb o’n perfformiad** ..... 5

**Dadansoddiad o Berfformiad** ..... **10**

**2.1 Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2022-23** ..... 10

**2.2. Prif risgiau** ..... 20

**2.3 Adolygiad ariannol** ..... 23

**2.4 Cynaliadwyedd** ..... 27

**Adroddiad Atebolrwydd** ..... **33**

**3 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** ..... 33

**3.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr** ..... 33

**3.2 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** ..... 36

**3.3 Datganiad Llywodraethu** ..... 38

**Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff** ..... 57

**Datganiadau Ariannol** ..... **81**

**4.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr** ..... 81

**4.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol** ..... 82

**4.3 Datganiad o lifoedd arian parod** ..... 83

**4.4 Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr** ..... 84

**4.5. Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022** ..... 85

# Adroddiad ar Berfformiad

## 1. Trosolwg

## 1.1 Cwmpas y cyfrifoldeb

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru ym mis Awst 2015, drwy *Ddeddf Cymwysterau Cymru*, ac fe dderbyniom ein dyletswyddau a'n pwerau ym mis Medi y flwyddyn honno. Y flwyddyn hon (mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023) yw ein seithfed flwyddyn ariannol lawn ar waith.

Rydyn ni’n rheoleiddio’r cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru. Rydyn ni’n gorff annibynnol sy'n canolbwyntio ar gymwysterau sy’n cael eu hariannu’n gyhoeddus, gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Rydyn ni’n gweithio gydag eraill i adolygu ac i ddiwygio cymwysterau.

Nid yw cymwysterau gradd yn rhan o'n gwaith, ond rydyn ni’n gweithio gyda phrifysgolion a cholegau er mwyn sicrhau eu bod yn deall y cymwysterau, gan ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen at addysg uwch. Rydyn ni eisiau i ddysgwyr, athrawon a chyflogwyr gael y cymwysterau gorau posibl, rhai sy’n helpu pobl i addasu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydyn ni’n gweithio gyda chyrff dyfarnu i ehangu'r cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â'n Cyfrifon Blynyddol, rydyn ni hefyd yn llunio Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi mwy o wybodaeth am ein gwaith a sut rydyn ni’n cyflawni ein prif nodau. Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o bob un o'n blaenoriaethau gweithredol a'r gweithgareddau rydyn ni wedi'u cynnal drwy gydol y flwyddyn er mwyn eu cyflawni. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ym mis Tachwedd 2022, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022, ac fe wnaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd graffu arno.

Mae'r set hon o Gyfrifon Blynyddol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

## 1.3 Cefndir a swyddogaethau statudol

Fel y rheoleiddiwr annibynnol, ein prif nodau yw:

- sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru
- magu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru

Yn Cymwysterau Cymru, rydyn ni’n diogelu gwerth cymwysterau, yn sicrhau eu bod yn cael eu dyfarnu'n deg, ac yn eu hadolygu a'u datblygu wrth i anghenion dysgwyr newid. Rydyn ni’n gosod y dysgwr wrth wraidd ein gweithgareddau.

A ninnau’r arbenigwyr dibynadwy yn y maes cymwysterau, rydyn ni’n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion perthnasol, yn ogystal ag ystyried anghenion cyflogwyr, y sector addysg uwch a phroffesiynau.

Mae gennym ni gyfrifoldeb hefyd i edrych ar y system gymwysterau yn ehangach er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio er budd dysgwyr, ac i weithredu neu gynghori eraill i wneud yr un peth, os oes angen. Rhan o'n gwaith yw sicrhau bod cymwysterau o fewn y system yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gennym bwerau a dyletswyddau i reoleiddio cyrff dyfarnu, a gallwn ni wneud ymyriadau cadarnhaol er mwyn sicrhau gwelliannau i gymwysterau neu'r system gymwysterau.

Rydyn ni’n rhoi sylw i wyth 'mater' wrth benderfynu sut rydyn ni’n mynd ati i wneud ein gwaith:

> "*Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol er mwyn cyrraedd ei brif nodau, mae'r materion y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn cynnwys (ymhlith pethau eraill):*
>
> *(a) Dymunoldeb hyrwyddo twf cynaliadwy yn economi Cymru;*
> *(b) Dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy argaeledd trefniadau asesu sy'n darparu ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, a chymwysterau sydd fel arall yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;*
> *(c) Ystod a natur y cymwysterau sydd ar gael, a'u trefniadau asesu;*
> *(d) Gofynion rhesymol cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau o ran addysg a hyfforddiant (gan gynnwys o ran y safonau cymhwysedd ymarferol gofynnol);*
> *(e) A yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae'n ofynnol eu dangos er mwyn penderfynu a ddylid dyfarnu cymhwyster i unigolyn yn adlewyrchu gwybodaeth gyfredol ac arfer gorau;*
> *(dd) A yw cymwysterau'n dangos lefel gyson o gyrhaeddiad â'r hyn a nodir gan ba gymwysterau bynnag y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn gymwysterau tebyg, p'un a ydynt wedi'u dyfarnu yn Ewrop neu rywle arall;*
> *(g) A ddarperir cymwysterau'n effeithlon ac er mwyn sicrhau gwerth am arian; a*
> *(h) Y rolau priodol a chwaraeir gan bob un o'r bobl ganlynol mewn perthynas â system gymwysterau Cymru a chyfrifoldebau pob un ohonynt (gan gynnwys drwy gyfeirio at gydweithrediad rhwng y bobl hynny, a'u heffeithiolrwydd wrth gyflawni eu rolau);*
> *(i) Cyrff dyfarnu, darparwyr dysgu, Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru;*
> *(ii) Unrhyw bobl eraill sy'n arfer swyddogaethau y mae Cymwysterau Cymru o'r farn eu bod yn berthnasol at ddibenion system gymwysterau Cymru.*
>
> *Deddf Cymwysterau Cymru (2015)*

## 1.4 Crynodeb o'n perfformiad

Gosodwyd pum blaenoriaeth weithredol ar gyfer 2022-23:

**Blaenoriaeth Weithredol 1 - Adolygu**

Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso agweddau ar y system gymwysterau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion dysgwyr ac yn magu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau. Byddwn yn gwneud gwaith ymchwil, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn sicrhau ein bod â'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau ehangach yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

**Blaenoriaeth Weithredol 2 – Diwygio**

Unwaith y byddwn ni wedi cwblhau'r gwaith o adolygu a gwerthuso set o gymwysterau, neu agwedd ar y system, gallai arwain at wneud newidiadau i ystod, cynnwys neu ddull asesu'r cymwysterau a gynigir yng Nghymru.

**Blaenoriaeth Weithredol 3 - Rheoleiddio**

Gall cyrff dyfarnu wneud cais i gael cydnabyddiaeth gennym ni. Pan gaiff corff dyfarnu ei gydnabod, rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheolau rydyn ni'n eu gosod. Byddwn yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn ein *Hamodau Cydnabod Safonol* a, lle bo'n briodol, byddwn yn defnyddio ein pwerau gorfodi i sicrhau bod y system yn diwallu anghenion dysgwyr. Rydyn ni'n monitro cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u darparu gan y cyrff dyfarnu rydym ni'n eu rheoleiddio.

**Blaenoriaeth Weithredol 4 – Adnoddau Corfforaethol**

Rydyn ni'n gwybod bod cryfder ac effeithlonrwydd corfforaethol yn cynyddu ein gallu i gyflawni ac yn gwella ein henw da gyda rhanddeiliaid. Rydyn ni'n ymdrechu i wneud penderfyniadau cytbwys sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth. Rydyn ni'n gwrando ar randdeiliaid ac yn darparu gwybodaeth glir. Ein nod yw parhau i ennyn ymddiriedaeth drwy reoli ein hadnoddau a'n harferion cydymffurfiaeth corfforaethol mewn ffordd gadarn ac effeithiol. Byddwn yn parhau i gefnogi llesiant gweithwyr wrth i ni ddatblygu ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

**Blaenoriaeth Weithredol 5 - Cyrhaeddiad**

Mae meithrin a chynnal hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn ganolog i'n gwaith. Rydyn ni'n sicrhau hyn drwy wneud gwelliannau parhaus i sut rydyn ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd allweddol ledled y wlad. Mae gennym amrywiaeth o sianeli a thechnegau ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector addysg a'r gwasanaeth sifil er mwyn cyfleu ein dyletswyddau rheoleiddio a diwygio.

Nodwyd ein ffocws ar gyfer y flwyddyn yng Nghynllun Busnes 2022/23, ac roedd yn amlinellu'r gwaith roedden ni'n bwriadu ei gyflawni er mwyn gefnogi ein pum blaenoriaeth weithredol.

Mae'r grynodeb hon o'n perfformiad yn amlinellu ein prif gyflawniadau drwy gydol y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn yr adran dadansoddi perfformiad.

**Sylwadau gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru**

## Cyflawniadau Allweddol Eleni

### Adolygu

Bu'n gwaith adolygu yn canolbwyntio ar adolygu a gwerthuso agweddau ar y system gymwysterau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion dysgwyr ac yn magu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi:

- datblygu ac ymgynghori ar gynigion i ail-lunio'r Cynnig Llawn o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed er mwyn sicrhau ein bod yn sefydlu cynnig cydlynol a chynhwysol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr
- gweithio'n agos gyda chyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill er mwyn nodi a rheoli'r risgiau sy'n wynebu'r ystod o gymwysterau yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau polisi yn Lloegr
- sefydlu tîm bach sy'n canolbwyntio ar ystyried y cyfleoedd, y buddion, yr heriau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio mwy ar dechnolegau digidol o fewn cymwysterau ac asesiadau, a hynny er mwyn cefnogi datblygiad strategaeth tymor hwy i foderneiddio asesu ar gyfer dysgwyr Cymru
- cynnal ymchwil i lywio gwaith meddwl strategol a'n gwaith wrth adolygu cymwysterau a pharatoi ar gyfer newid; rydym wedi siarad â rhanddeiliaid ym maes addysg bellach er mwyn ddeall sut y gwnaethant ddefnyddio graddau, a hynny er mwyn ein helpu i benderfynu ar ddyfodol graddfa'r radd TGAU; rydym wedi cwblhau cylch diweddaraf ein harolwg hyder y cyhoedd gyda rhanddeiliaid allweddol ac wedi ymchwilio cysyniadau asesu parhaus a gwahanol ddulliau o ymdrin â safonau
- wedi cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad sector ar gyfer Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid
- wedi cwblhau adolygiad y sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo, gan gyhoeddi'r adroddiad ym mis Ionawr 2023
- wedi cynnal Adolygiad Sector ar gyfer Busnes, Gweinyddu, Manwerthu a Gwasanaethau Cyfreithiol – bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn 2023/24

### Diwygio

Yn 2022/23, cyrhaeddom gyfnod hollbwysig ein rhaglen waith *Cymwys ar gyfer y Dyfodol* sy'n diwygio cymwysterau i ddysgwyr rhwng 14-16 oed. Rydym wedi parhau â'n dull datblygu ar y cyd, gan gynnwys academyddion, arbenigwyr pwnc, ymarferwyr a dysgwyr yn y gwaith o lunio cymwysterau newydd, ac wedi ymgynghori ar ein cynigion dylunio. Roedd ein gwaith yn ystyried anghenion pob dysgwr rhwng 14 a 16 oed, ac fe wnaethom ymgysylltu'n eang er

mwyn sicrhau bod nodau, cynnwys ac asesiadau'r cymwysterau a ddatblygwyd yn elwa o gael ei ddylanwadu gan amrywiaeth o safbwyntiau.

Rydym wedi croesawu cyfleoedd i arloesi ac i foderneiddio asesiadau, a hynny er mwyn gwireddu'r buddion sydd i'w cael o wella'n defnydd o dechnoleg ac offer digidol, a buom yn gweithio'n agos gyda chyrff dyfarnu ac â chanolfannau er mwyn sicrhau bod modd rheoli newidiadau.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi:

- datblygu a chytuno ar y cynigion dylunio lefel uchel ar gyfer cynnwys ac asesiadau'r gyfres newydd o TGAU Gwneud-i-Gymru yn y celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles, ieithoedd, y gwyddorau, y dyniaethau a mathemateg
- bydd y cynigion hyn yn helpu i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'u bod yn addas ar gyfer y dyfodol
- wedi gweithio gyda chyrff dyfarnu i gryfhau eu gwaith o gofnodi dewisiadau iaith dysgwyr
- adolygu cymwysterau ôl-16 ac wedi nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer sicrhau darpariaeth ddwyieithog
- darparu ychydig dros £120k o gyllid grant cystadleuol drwy gefnogi cyrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- darparu £410k o gyllid grant i CBAC er mwyn cyfrannu at y gost o baratoi cymwysterau dwyieithog.
- parhau i oruchwylio datblygiad Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch diwygiedig ac wedi cymeradwyo'r cymhwyster newydd ym mis Gorffennaf 2022 i'w addysgu gyntaf ym mis Medi 2023
- cymeradwyo'r diwygiadau i elfennau Cymhwyso Rhif, Cyfathrebu a Chyflogadwyedd o'r cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru ac wedi ymgysylltu â chyrff dyfarnu i adnabod newidiadau i'r cymwysterau 'Llythrennedd Digidol' i'w cyflwyno ym mis Medi 2023.
- gwrando ac wedi ymateb i brofiadau colegau wrth gyflwyno'r cymwysterau newydd – gan oruchwylio'r camau gweithredu a ddeilliodd o'n hadolygiad o gyflwyniad y cymwysterau Gwneud-i-Gymru mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys datblygu Diploma Estynedig Lefel 3 newydd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- cynnal adolygiad o gyflwyniad cymwysterau Gwneud-i-Gymru mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu, gan nodi camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â materion hysbys.
- cefnogi athrawon mewn ysgolion a cholegau gyda rhaglen rheoli newid er mwyn eu helpu i gyflwyno'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch Technoleg Ddigidol newydd yn effeithiol
- gweithredu'r camau a nodwyd yn yr adolygiad o'r sector Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni

### Rheoleiddio

Yn Haf 2022, cafodd y gyfres arholiadau gyntaf ers y pandemig ei chynnal yn ddiogel. Rhoddwyd mesurau ar waith i gefnogi dysgwyr, gan gynnwys addasu asesiadau a defnyddio dull graddio a oedd yn gosod y canlyniadau tua hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a rhai

2021. Gwnaethom fonitro'r broses ddyfarnu yn agos er mwyn sicrhau bod canlyniadau’r dysgwyr yn deg, a bod y gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod yn llywio ein dull o ymdrin â safonau yn y flwyddyn academaidd nesaf a thu hwnt. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi:

- parhau â'n gweithgareddau i gydnabod, i fonitro ac i sicrhau cydymffurfiaeth, gan ddatblygu canllawiau pellach lle bo angen
- monitro hyfywedd cyrff dyfarnu yn dilyn effaith y pandemig ar refeniw
- monitro cymwysterau, gan gynnwys cyflwyno a dyfarnu cyfres arholiadau haf 2022 a gaeaf 2022-23, cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, a'r cymwysterau galwedigaethol cymeradwy newydd ym maes Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu
- cefnogi’r diwygiadau i gymwysterau 14-16 *Cymwys ar gyfer y Dyfodol* - drwy ddarparu cyngor a chymorth ar asesiadau o effaith a thrwy oruchwylio'r dadansoddiad cost-budd
- adolygu a datblygu datrysiadau polisi rheoliadol er mwyn ategu a chefnogi'r cynnig cymwysterau 14-16
- parhau i ddynodi cymwysterau yn erbyn ein rheolau a'n gofynion tystiolaeth, gydag amserlenni sy’n cyrraedd y targed 100%, ac wedi prosesu diwygiadau i gymwysterau
- cynnal yr adolygiadau a drefnwyd ar gyfer polisiau rheoleiddiol ac wedi adolygu effeithiolrwydd ein dull rheoleiddio yng nghyd-destun y gwahaniaethau cynyddol rhwng polisïau cymwysterau Cymru a Lloegr
- ymgynghori ar gynigion a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo eu cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- lansio partneriaeth strategol newydd gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod dysgwyr a phrentisiaid sy’n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog â mynediad at gymwysterau dwyieithog ym mhob maes pwnc perthnasol.
- cyhoeddi canllawiau ar y trefniadau asesu wrth gefn ar gyfer y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i ganslo cyfres arholiadau haf
- cyhoeddi gweithdrefn ar gyfer amlinellu pa ddata y bu'n rhaid i CBAC ei ddarparu yn ystod cyfnewidiad data Ionawr 2023 ynghyd ag adroddiad yn crynhoi ein fframwaith a'n dull o reoleiddio cyrff dyfarnu a'r cymwysterau y maent yn eu cynnig
- cyhoeddi trosolwg o ddyfarniadau haf 2022 a oedd yn cynnwys manylion am sut y gwnaethom ni reoli effaith pandemig COVID-19 ar ddyfarnu cymwysterau

### Adnoddau Corfforaethol

Yn ystod 2022/23, buom yn adolygu ac yn adnewyddu ein dull strategol cyffredinol. Rydym wedi cyhoeddi ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, gan ddod â’r hyn rydym ni wedi'i ddysgu a'i gyflawni ers ein i ni gael ein sefydlu ynghyd, a chan nodi ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau. Wrth symud tuag at batrwm rheolaidd o weithio hybrid, gwnaethom gytuno ar bolisïau newydd a oedd yn ffurfioli ein trefniadau hyblyg a chynhwysol ar gyfer gwaith, ac rydym wedi newid cynllun ein swyddfeydd er mwyn gweddu’n well â’r ffyrdd hyn o weithio. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar les gweithwyr, ar ein hamcanion cydraddoldeb a chenedlaethau'r dyfodol, ac ar ein heffaith amgylcheddol, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i wneud Cymwysterau Cymru yn weithle gwych. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi:

- parhau i sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg yn esmwyth
- cefnogi lles ein gweithwyr drwy gynnal digwyddiadau, trwy gyfathrebu’n rheolaidd a chyda mentrau
- cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth
- cyflawni camau gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg a chefnogi lleihad carbon drwy fonitro ein heffaith carbon a sefydlu Cynllun Gweithredu Lleihau Carbon sy’n nodi camau gweithredu i ostwng allyriadau
- llwyddo i ddarparu rhaglen archwilio fewnol, gyda phob archwiliad wedi cynnig sicrwydd sylweddol neu resymol
- ymgorffori ein hegwyddorion arweiniol, sef 'cydweithio, creadigrwydd, gofalu a chymuned' i lywio pam a phryd y byddwn ni’n dod at ein gilydd i weithio yn y swyddfa
- gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus er mwyn cefnogi'r system gymwysterau ac i fanteisio ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd
- parhau i ddarparu cyfnod ymsefydlu effeithiol ar gyfer aelodau newydd o’n bwrdd ac wedi cwblhau adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd y Bwrdd. Rydym wedi datblygu cynllun i weithredu argymhellion yr adolygiad hwn a byddwn yn parhau i gyflawni yn erbyn y cynllun yn 2023/24
- gweithredu system recriwtio ddwyieithog ar-lein er mwyn cefnogi gwaith effeithiol ac effeithlon ac wedi parhau â’n gwaith i weithredu system gyllid newydd
- cefnogi'r prosiect ‘Llwybr i’r Bwrdd’ sy'n cael ei redeg gan grŵp o ymddiriedolaethau tai i annog mwy o bobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig i fod yn aelodau bwrdd

### Cyhraeddiad

Yn ystod 2022/23 gwnaethom barhau i wella'r ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac â rhanddeiliaid allweddol er mwyn meithrin a chynnal hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi:

- parhau i ddatblygu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu'n well â dysgwyr, gan gynnwys adolygu'r cynnwys ar draws ein holl sianeli a datblygu strategaeth newydd i wella ein hymgysylltiad digidol
- datblygu a lansio gwefan newydd sydd â ffocws ar y gynulleidfa
- cyflawni'r cynllun ymgysylltu strategol i feithrin a datblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid presennol a newydd
- cyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch y dychweliad at arholiadau ac asesu ar ôl y pandemig
- cyfathrebu ac ymgysylltu ar ein blaenoriaethau o ran adolygu a diwygio; datblygu a chyflawni cynlluniau a thargedau perfformiad penodol

| **Llofnod** | **Philip Blaker** |
|---|---|
| *Philip Blaker* | Swyddog Cyfrifyddu<br>21 Medi 2023 |

# Dadansoddiad o Berfformiad

## 2.1 Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2022-23

Roedd blaenoriaethau gweithredol 2022-23 yn seiliedig ar gynllun y flwyddyn flaenorol. Adroddodd yr Uwch Grŵp Arwain gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn bob mis, gan ddefnyddio system sgorio Coch/Ambr/Gwyrdd. Roedd hyn yn ein galluogi i adrodd ar gynnydd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni dros y flwyddyn:

| **Blaenoriaeth Weithredol 1 – Adolygu** |
| --- |
| **Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni** |
| • Datblygu ac ymgynghori ar gynigion i ail-lunio'r Cynnig Ehangach ar gyfer cymwysterau 14-16 (* a elwir bellach yn Gynnig Llawn)<br>• Adolygu a chryfhau'r cynnig cymwysterau ôl-16<br>• Cwblhau'r Adolygiad o'r Sector Teithio, Twristiaeth, Hamdden, Lletygarwch ac Arlwyo<br>• Adolygu'r gyfres o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru<br>• Datblygu dull strategol o foderneiddio asesu<br>• Gwneud gwaith ymchwil i lywio adolygu a meddwl strategol<br>• Cefnogi cyflawniad ein Hamcan Cydraddoldeb – 'Ymgysylltu â'r system gymwysterau a'i hysbysu' |
| **Cynnydd** |
| Yn ystod 2022/23 buom yn datblygu cynigion ar gyfer ail-lunio'r ystod lawn o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 14-16 ac yn cynnal asesiadau o'u heffaith. Ym mis Mai 2022 buom yn adolygu data ar yr ystod bresennol o gymwysterau ac yn gwneud gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid er mwyn deall anghenion dysgwyr, i rannu ein syniadau ac i brofi awgrymiadau cychwynnol. Buom yn siarad ag athrawon o bob math o ysgol ac â grwpiau dysgwyr, cyflogwyr, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, colegau a phrifysgolion. Ym mis Tachwedd 2022, bu'n Bwrdd yn ystyried y cynigion ar gyfer y Cynnig Llawn, gan eu cefnogi, ac ym mis Mawrth 2023 dechreuwyd ymgynghoriad ffurfiol. Mae ein cynigion yn cydnabod yr angen i ddatblygu ystod gwbl gynhwysol o gymwysterau ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru. Mae ein cynigion yn cynnwys Cyfres Sgiliau, cymwysterau Cyn-Alwedigaethol, a Chymwysterau Sylfaen a fydd, ynghyd â chymwysterau TGAU, yn ffurfio'r gyfres gymwysterau 14-16 lawn, sydd wedi'i dylunio i fod yn gynnig mwy cynhwysfawr a chydlynol i bobl ifanc yng Nghymru. |

Gwnaethom hefyd adolygu a chryfhau'r cynnig cymwysterau ôl-16 yn 2022/23. Nodwyd pa risgiau sy'n wynebu dysgwyr yng Nghymru yn sgil newidiadau polisi cymwysterau ôl-16 yn Lloegr a chymerwyd camau i'w rheoli, a chyhoeddwyd canfyddiadau'r Adolygiad Sector Cam 2 mewn Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid, sydd i'w gweld ar ein gwefan. Gwnaethom gynnal Adolygiad Cam 2 o'r sector Busnes, Gweinyddu, Manwerthu a Gwasanaethau Cyfreithiol a byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn 2023/24.

Cwblhawyd yr adolygiad o'r sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2023, mae i'w weld ar ein gwefan. Er mwyn cynnal yr adolygiad hwn, buom yn siarad â chyflogwyr a dysgwyr ac ag ysgolion a cholegau ledled Cymru er mwyn deall eu hanghenion. Gwnaethpwyd cynlluniau i weithio gyda chyrff dyfarnu er mwyn gwella cymwysterau ym maes teithio a thwristiaeth. Ar ôl dod i'r casgliad bod angen cymwysterau newydd ym maes lletygarwch ac arlwyo, lansiwyd ymgynghoriad ym mis Mawrth ar ein bwriad i gyfyngu ar y farchnad ac i ddechrau comisiynu cymwysterau newydd.

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae gwaith i ddatblygu dull strategol o foderneiddio gwaith asesu wedi datblygu ac rydym wedi sefydlu tîm 'Moderneiddio Asesu' er mwyn hyrwyddo'r flaenoriaeth hon o fewn y sefydliad ac ar draws Cymru. Rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer newid drwy ddadansoddi dulliau presennol o asesu a thrwy ddatblygu dealltwriaeth o'r manteision posibl o ddefnyddio dulliau arloesol o asesu. Trwy weithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr rydym wedi gallu ystyried ffyrdd o ddiweddaru arferion asesu er mwyn taro'r cydbwysedd gorau rhwng hylawrwydd, ymgysylltedd, dibynadwyedd a dilysrwydd cymwysterau. Eleni, bu'n gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu'r ddealltwriaeth a fydd yn hwyluso symudiad y system gymwysterau tuag at asesiadau mwy arloesol sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg. Bydd mwy o asesiadau digidol yn cael eu cyflwyno yn y cymwysterau TGAU diwygiedig, a byddwn yn parhau i weithio gyda chyrff dyfarnu a'r system addysg ehangach er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r gwaith o ddarparu asesiadau digidol dwyieithog.

Aeth gwaith yr adolygiad o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn dda yn ystod 2022/23. Cwblhawyd cam cyntaf yr adolygiad, a oedd yn cynnwys adolygiad technegol o gynnwys ac asesiadau'r cymwysterau, gan ACER. Cwblhawyd y gyfres gyntaf o gyfweliadau â darparwyr dysgu hefyd, er mwyn casglu eu barn am y cymwysterau. Bydd arolwg ar gyfer rhanddeiliaid yn cael ei lansio yn haf 2023 a bydd ein grŵp cynghori rhanddeiliaid yn cyfarfod am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2023, ac yn hydref 2023 byddwn yn dechrau cynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr i gasglu eu barn.

Bu'n gwaith ymchwil i lywio meddwl strategol yn canolbwyntio ar asesu hyder y cyhoedd, y defnydd o raddfeydd graddau TGAU gan randdeiliaid, meithrin ymgysylltiad sefydliadol ag ymchwilwyr allanol yn ogystal â thrafodaethau ar asesiadau yn y dyfodol. Yn ystod 2022/23, buom yn cynnal prosiect ymchwil ar raddfa fach er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch cadw'r graddau F a G yn y raddfa gradd TGAU neu ddim, gan ddod i'r casgliad y dylid eu cadw.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai a grwpiau ffocws hefyd, a buom yn siarad ag ystod eang o ddysgwyr ledled Cymru er mwyn casglu barn. Roedd y gwaith ymgysylltu hwn yn cyd-fynd â'n gwaith i gyd-greu cymwysterau diwygiedig sy'n alinio â'r Cwricwlwm i Gymru, i'w haddysgu gyntaf rhwng 2025 a 2027.

**Blaenoriaeth Weithredol 2 - Diwygio**

**Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni**

- Cyd-greu TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig fel rhan o gymwysterau Cymwys ar gyfer y dyfodol (*ein prosiect i ddiwygio cymwysterau 14-16)
- Diwygio Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru
- Arolygu'r Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru presennol
- Cefnogi cyflwyniad y gyfres o gymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu
- Cefnogi cyflwyniad y cymwysterau Technoleg Digidol newydd
- Rhoi'r camau gweithredu o'r adolygiad o'r sector Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni ar waith
- Parhau i wneud cynnydd wrth gyflwyno 'Dewis i Bawb', ein strategaeth bum mlynedd ar gyfer cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- Rheoli ac adolygu'r dyfarniad o grantiau
- Cefnogi cyflawniad ein Hamcanion Cydraddoldeb – 'Mae cymwysterau rheoleiddiedig yn cael eu cynllunio a'u hasesu mewn ffordd sy'n deg i bob dysgwr.'

**Cynnydd**

Mae gwaith i gyd-adeiladu TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig wedi mynd rhagddo'n gyflym yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi datblygu a chytuno ar y cynigion dylunio lefel uchel ar gyfer cynnwys ac asesiadau'r gyfres newydd o TGAU Gwneud-i-Gymru yn y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Ieithoedd, y Gwyddorau, y Dyniaethau a Mathemateg Yn Hydref 2022, buom yn ymgynghori ar y cynigion hynny ac rydym wedi gweithio gyda grwpiau cyd-adeiladu er mwyn mireinio a chytuno ar ddyluniad lefel uchel y TGAU newydd a'r cymwysterau cysylltiedig mewn ymateb i'r adborth a gafwyd. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023, bu'n Bwrdd yn ystyried argymhellion ar gyfer diwygio TGAU ac yn eu cefnogi. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r gofynion dylunio terfynol ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, ynghyd ag adroddiad ar ymgynghoriad 2022 a'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud, yn haf 2023/24.

Yn ystod 2022/23, rydym wedi parhau i oruchwylio datblygiad Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch diwygiedig ac wedi cymeradwyo’r cymhwyster newydd ym mis Gorffennaf 2022 i'w addysgu gyntaf ym mis Medi 2023

Gwnaethom ymgysylltu â chyrff dyfarnu er mwyn nodi newidiadau i egwyddorion dylunio y Sgiliau Hanfodol, a buom yn cynllunio, profi ac yn gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i'r egwyddorion hynny.

Yn 2022/23, cafodd y cymwysterau newydd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu eu gwobrwyo am y tro cyntaf. Rydym wedi monitro profiadau'r rhai a gymerodd ran yn ofalus. Pan nodwyd meysydd i'w gwella, a phan oedd yn briodol i ni weithredu, gwnaethom hynny, gan weithio gyda chyrff dyfarnu. Rydym hefyd wedi cefnogi cyflwyniad cymwysterau newydd mewn Technoleg Ddigidol gyda chyllid grant er mwyn galluogi'r corff dyfarnu i wella adnoddau addysgu.

Ers cyhoeddi ein hadolygiad sector o’r cymwysterau a'r system gymwysterau ar gyfer Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni, rydym wedi gweithio gyda chyrff dyfarnu a rhanddeiliaid ehangach i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr adolygiad, a daeth y gwaith i ben yn 2022/23. Fel rhan o'n gwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol, datblygwyd cynigion ar gyfer TGAU newydd mewn Peirianneg ac ymgynghorwyd arynt, gan wahodd adborth gan randdeiliaid a dysgwyr sydd â diddordeb.

Er mwyn adeiladu ar ein cynnydd o ran cyflwyno 'Dewis i Bawb', ein strategaeth Gymraeg ar gyfer cymwysterau, buom yn gweithio gyda chyrff dyfarnu, canolfannau a rhanddeiliaid er mwyn nodi meysydd a chymwysterau lle dylid blaenoriaethu argaeledd y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ôl-16. Buom hefyd yn annog cyrff dyfarnu i gryfhau eu gwaith o gofnodi iaith ddewisol pob dysgwr, a hynny er mwyn gwella gwybodaeth a data ynghylch y nifer sy'n dewis cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Cafodd y cyllid grant Cymraeg ei ffocysu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn ein gwaith gyda chyrff dyfarnu, canolfannau a rhanddeiliaid, a gwnaethom fonitro ac adrodd yn rheolaidd gan ddefnyddio’r chwe dangosydd allweddol a nodwyd yn y strategaeth.

Fe wnaethom barhau i reoli'r grant Cymraeg i Oedolion a’r grant Cymorth Iaith Gymraeg, a chynhaliwyd seminar gyda chyrff dyfarnu a oedd â diddordeb er mwyn hyrwyddo ac egluro'r grantiau sydd ar gael ar gyfer trosi cymwysterau i’r Gymraeg. Nid welwyd yr un cynnydd â’r disgwyl yn y gwaith o adolygu'r portffolio grantiau a datblygu strategaeth grant tymor hwy eleni, a hynny gan fod Adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol Llywodraeth Cymru yn debygol o effeithio arno. Gwnaethom barhau â'n dull presennol o ymdrin â grantiau, ac rydym yn bwriadu ailedrych ar ein dull gweithredu yn 2023/24 pan fydd canlyniadau'r Adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol yn hysbys. Byddwn hefyd yn adolygu cymwysterau cyffredinol grant CBAC yn ystod 2023/24, a gwnaed paratoadau ar gyfer y gwaith hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

Er mwyn cefnogi cyflawniad ein Hamcanion Cydraddoldeb, ceisiom sicrhau bod cymwysterau rheoleiddiedig yn cael eu cynllunio a'u hasesu mewn ffordd a oedd yn deg i bob dysgwr. Wrth ddatblygu cymwysterau newydd, roeddem o hyd yn ystyried effeithiau posibl ein cynigion ar ddysgwyr, a chynhaliwyd Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod ein cynigion yn deg, yn diwallu anghenion dysgwyr ac nad oeddent yn gwahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn unrhyw grŵp gwarchodedig. Rydym hefyd wedi datblygu ac ymgynghori ar gynigion ar gyfer ail-lunio'r Cynnig Llawn o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 14-16 oed. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod cynnig cydlynol a chynhwysol o gymwysterau ar y cyd â TGAU sy'n diwallu anghenion pob dysgwr, gan eu galluogi i ddangos eu sgiliau a'u gwybodaeth.

**Blaenoriaeth Weithredol 3 – Rheoleiddio**

**Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni**

- Rheoleiddio cyrff dyfarnu
- Monitro cymwysterau
- Cefnogi diwygiadau i gymwysterau Cymwys ar gyfer y Dyfodol 14-16 gyda pholisïau a dulliau rheoleiddio
- Gweithio gyda rheoleiddwyr eraill ac â phartneriaid ehangach ar faterion rheoleiddio, gan gynnwys rheoli'r baich rheoleiddio
- Dynodi cymwysterau
- Adolygu a diweddaru polisïau a dogfennau rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol
- Rheoli Cymwysterau yng Nghymru (QIW)
- Casglu data a chynhyrchu ystadegau
- Pennu'r dull o asesu a rheoleiddio cymwysterau yn 2022/2023
- Pennu'r dull o asesu a rheoleiddio cymwysterau yn y blynyddoedd dilynol
- Cefnogi ein Hamcan Cydraddoldeb – 'Mae cymwysterau rheoleiddiedig yn cael eu cyflenwi a'u dyfarnu mewn ffordd sy'n deg i bob dysgwr.'

**Cynnydd**

Rydym wedi parhau i reoleiddio cyrff dyfarnu trwy gydol y flwyddyn. Ar ôl dyrannu adnoddau ychwanegol i gefnogi ein gwaith diwygio, fe wnaethom ailgynllunio ein gweithgareddau er mwyn blaenoriaethu gwaith hanfodol. Gwnaethom gwblhau ein hymarfer datganiad cydymffurfiaeth blynyddol, lle gofynnir i gyrff dyfarnu adrodd ar eu cydymffurfiaeth â'n hamodau cydnabod, gan weithio mewn partneriaeth ag Ofqual a CCEA. Gwnaethpwyd gwaith monitro dilynol ar faterion cydymffurfio 2021, gyda ffocws parhaus ar hyfywedd ariannol. Cwblhawyd y gwaith o fonitro dyfarniad cymwysterau, gyda ffocws ar gymwysterau 'Gwneud-i-Gymru' a pharatoi CBAC ar gyfer dyfarniadau hafau 2022 a 2023. Gwnaethom fonitro sut yr adroddir am

ddigwyddiadau yn ogystal ag ymdrin â chwynion. Cymerwyd camau priodol lle nodwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio, gan gynnwys camau rheoleiddio ffurfiol lle bo angen, gan reoli achosion pan fo cyrff dyfarnu yn ildio cydnabyddiaeth.

Yn haf 2022, dychwelwyd at gyfres arholiadau llawn ar ôl canslo arholiadau ledled y DU yn 2020 a 2021. Yn y flwyddyn flaenorol roeddem wedi cytuno ac wedi cyfleu ein dull polisi o ymdrin â safonau ac addasiadau i gymwysterau. Ym mis Mai, fe gyhoeddon ni ystadegau swyddogol ar gofrestriadau ar gyfer cyfres haf 2022 a buom yn gweithio gyda CBAC i ddeall y materion technegol sy'n gysylltiedig â gweithredu ein dull polisi arfaethedig o ddyfarnu graddau yn haf 2022: sef canlyniadau oddeutu hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a rhai 2021. Cafodd cyfres arholiadau'r haf ei chyflwyno’n llwyddiannus a chafodd y canlyniadau dderbyniad da ar y cyfan. Gwelwyd cynnydd yng nghanlyniadau haf 2022 o gymharu â 2019, a gostyngiad o gymharu â 2021, gan lanio oddeutu hanner ffordd rhwng y ddwy gyfres, yn unol â'r dull polisi.

Cytunwyd ar ddull gweithredu ar gyfer safonau cyfres 2023, gyda'r canlyniadau i’w gosod, yn fras, hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a 2022, a hynny er mwyn adlewyrchu sut y gwnaeth y blynyddoedd blaenorol darfu ar ddysgwyr, a'r posibilrwydd am fwy o darfu o ganlyniad i weithredu diwydiannol gan athrawon. Penderfynom na fyddai'r addasiadau a wnaed ar gyfer haf 2022 yn parhau. Yn hytrach, byddai gwybodaeth yn cael ei ryddhau gan CBAC ymlaen llaw i nodi pa bynciau a themâu a fyddai yn asesiadau haf 2023, a hynny er mwyn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio eu gwaith adolygu ar gyfer yr arholiadau cymwysterau 'Gwneud-i-Gymru'. Roedd y dull hwn yn adlewyrchu ein dychweliad graddol at ganlyniadau cyn y pandemig.

Ym mis Tachwedd, safodd dysgwyr arholiadau TGAU Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Mathemateg-Rhifedd a TGAU Cymraeg Iaith, tra bo cyfres Ionawr 2023 yn cynnwys arholiadau uned ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg, TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, cyfle terfynol i ail-eistedd TGAU TGCh, Tystysgrifau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru a rhai elfennau o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3 a chymwysterau Gofal Plant Lefel 2 a 3. Buom yn monitro cyflwyniad y gyfres hon gan CBAC a'r dull a ddefnyddiwyd i ddyfarnu graddau, a buom yn gweithio i sicrhau bod heriau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu dyfarnu yn unol â'r dull polisi y cytunwyd arno ar gyfer haf 2023, sef oddeutu hanner ffordd.

Parhaodd ein gwaith i gefnogi diwygiadau cymwysterau 14-16 Cymwys ar gyfer y Dyfodol gyda pholisïau a dulliau rheoleiddio yn ystod 2022/23. Cwblhawyd asesiadau effaith a dadansoddiadau cost-budd. Adolygwyd a datblygwyd datrysiadau polisi rheoleiddio i fod yn sail i’r cynnig cymhwyster 14-16 ac i’w gefnogi, a datblygwyd canllawiau i staff ar y broses llunio polisi.

Parhaodd ein gwaith i ddyfarnu cymwysterau yn erbyn rheolau a gofynion tystiolaeth yn ystod y flwyddyn, gan gyrraedd ein targedau o ran amseroedd ymateb, yn ogystal â gwaith i brosesu gwelliannau i gymwysterau. Buom yn cynnal adolygiadau polisi rheoleiddio a drefnwyd ymlaen llaw ac yn adolygu effeithiolrwydd ein dull rheoleiddio yng nghyd-destun y bwlch cynyddol rhwng polisïau cymwysterau Cymru a Lloegr. Diwygiwyd y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a'r Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig, y Cynllun cysylltiedig a wnaed o dan Adran 17 o Ddeddf Cymwysterau Cymru, a'r Polisi

Dynodi, a hynny er mwyn nodi'n fwy eglur sut y cymhwysir hyd cymeradwyaeth o fewn cyd-destun cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig. Cyhoeddwyd canllawiau ynghylch y trefniadau asesu wrth gefn ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i ganslo cyfres arholiadau'r haf. Ym mis Medi fe wnaethom gyhoeddi adroddiad oedd yn rhoi crynodeb o'n fframwaith a'n dull o reoleiddio cyrff dyfarnu a'r cymwysterau y maent yn eu cynnig, ac ym mis Hydref cyhoeddwyd amodau Cydnabod ar gyfer Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (Lefel 3). Hefyd, cyhoeddom drosolwg o ddyfarniadau haf 2021 a oedd yn cynnwys manylion am sut y gwnaethom ni reoli effaith pandemig Covid-19 ar ddyfarnu cymwysterau.

**Blaenoriaeth Weithredol 4 – Adnoddau: Gallu Corfforaethol**

**Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni**

- Adolygu ac adnewyddu ein Dull Strategol cyffredinol
- Darparu gwasanaethau corfforaethol sy'n cefnogi ac yn herio'r sefydliad i fod yn effeithlon, yn effeithiol ac i gydymffurfio
- Cyhoeddi adroddiadau corfforaethol yn brydlon ac i safon uchel
- Cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyflawni camau gweithredu Cynllun y Gymraeg
- Sefydlu ffyrdd newydd o weithio i gefnogi ymgysylltu â staff
- Cefnogi lleihad carbon
- Cydweithio â'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- Cefnogi datblygiad y Bwrdd
- Gweithredu'r System Gyllid ac Adnoddau Dynol newydd
- Cefnogi ein Hamcan Cydraddoldeb - 'Mae ein gweithlu a'n Bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yng Nghymru rydyn ni'n rheoleiddio ar eu cyfer ac yn gweithio yn eu plith.'
- Cefnogi ein Hamcan Cydraddoldeb – 'Parhau i feithrin diwylliant sy'n gynhwysol'

**Cynnydd**

Dros y flwyddyn datblygwyd a chyhoeddwyd dogfen gan y Bwrdd a oedd yn amlinellu ein gweledigaeth deng mlynedd a'n blaenoriaethau strategol pum mlynedd ar gyfer y cyfnod 2022 i 2027. Mae'r gwaith hwn wedi llywio ein cynllun gweithredu ar gyfer 2023/24.

Yn ystod 2022/23, bu'n swyddogaethau corfforaethol yn parhau i gefnogi ac i herio'r sefydliad, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cydymffurfio, a'n bod yn cyflawni ein gwaith rheoleiddio a diwygio. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2021/22, a oedd

yn trafod ein cyflawniad yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Yn yr hydref, cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22, a oedd yn cynnwys diweddariad cynnydd yn erbyn ein Cynllun Iaith Gymraeg, ynghyd ag adroddiad cynnydd yn erbyn ein hamcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gwirfoddol. Cyhoeddwyd ein cyfrifon heb eu cymhwyso ar gyfer 2021/22, ein Cynllun Gwrth-Hiliaeth, ein Cynllun Lleihau Carbon, a chyflwynwyd y Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23 yn llwyddiannus, gyda'r holl adroddiadau'n dangos sicrwydd sylweddol neu resymol.

Yn ogystal â chyflawni yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dechreuwyd y gwaith o adolygu ac adnewyddu ein hamcanion ar gyfer 2024 ymlaen. Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethom sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ystod 2022/23 byddwn yn cymhwyso'r pum dull o weithio wrth ddatblygu Amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol newydd. Sefydlwyd Grŵp Hyrwyddwyr Cydraddoldeb hefyd, sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion presennol a chefnogi'r gwaith i ddatblygu amcanion newydd ar gyfer 2024-28.

Rydym wedi parhau i feithrin ein diwylliant cynhwysol er mwyn cefnogi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Yn 2022/23, comisiynwyd Active Learning Team i gynnal adolygiad cydraddoldeb a chynhwysiant a lywiodd ddatblygiad rhaglen hyfforddi bwrpasol ar gyfer ein staff a'n Bwrdd. Cynhaliwyd y sesiwn hyfforddi beilot ym mis Mawrth, a chafwyd derbyniad da gan y staff a fu'n rhan ohoni. Bydd rhagor o hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn 2023/24, yn ogystal â nifer o fentrau eraill sydd wedi'u cynllunio i feithrin ac i wreiddio cynwysoldeb ar draws Cymwysterau Cymru.

Yn ystod 2022/23, bu'n Bwrdd y Prosiect yn cefnogi'r prosiect 'Llwybr i'r Bwrdd', a gynhelir gan y sector tai ac sydd wedi'i gynllunio i helpu unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddod yn aelodau effeithiol o fyrddau. Bu ein Bwrdd yn mentora sawl aelod o garfan gyntaf y prosiect. Ym mis Ionawr 2023, cytunodd ein Bwrdd i barhau i fentora aelodau o'r ail garfan, gyda'r nod o helpu byrddau yng Nghymru i adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn well.

Rydym wedi parhau i weithio ar y cyd â'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac wedi cefnogi rhwydweithiau ym maes Cyllid, Adnoddau Dynol a TG. Mae ein Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Adnoddau Corfforaethol yn aelod o Fwrdd y Rhaglen a'r ffrwd waith Adnoddau Dynol ar gyfer rhaglen weithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac mae ein Pennaeth TG yn cefnogi'r systemau a'r prosesau llif gwaith. Rydym yn cefnogi'r rhwydweithiau o gyrff noddedig ar gyfer penaethiaid adnoddau, TG, cyllid ac AD. Mae ein Pennaeth AD yn mynychu sesiynau gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn ystyried sut y gallwn gydweithio ar amcanion cydraddoldeb i gael yr effaith fwyaf posibl, ac mae gennym gynrychiolaeth ar Grŵp Llywio Gwrth-Hiliaeth Addysg Bellach Ôl-16.

Mae'r gwaith i ymgorffori ein dulliau newydd o weithio wedi datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn, gyda gweithio hybrid yn cael ei fabwysiadu a chyflwyniad polisi gweithio hybrid newydd. Ail-ddyluniwyd ein swyddfa er mwyn cefnogi ein ffyrdd newydd o weithio ac ymgysylltwyd â staff ynghylch datblygu a

gweithredu'r dull arfaethedig.  Cafwyd adborth cadarnhaol gan staff, gyda chydweithwyr yn dweud bod ein dulliau gweithio newydd wedi eu helpu i gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd gwaith, a hynny heb golli cysylltiad â chydweithwyr.

Er mwyn cefnogi lleihau carbon, rydym wedi gosod synwyryddion is-goch goddefol er mwyn rheoli'r systemau gwresogi ac oeri yn ein hystafelloedd cyfarfod, ac rydym wedi defnyddio meini prawf amgylcheddol wrth reoli caffael cyfleusterau ac wrth adnewyddu ein swyddfa.  Fe gyflawnodd yr Uwch Reolwr Cyfleusterau Hyfforddiant Llythrennedd Carbon a chyflwynodd sesiwn ddysgu ysgafn i'r staff.  Mae ein contract trydan newydd yn cynnig bod 76% o'u hynni yn ynni gwyrdd, ac mae ein gweithgareddau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ar gyfer 2022/23 wedi cefnogi'r agenda lleihau carbon, gyda gweithwyr yn helpu cymunedau lleol i glirio rhedyn er mwyn gwella bioamrywiaeth a mynediad at fannau gwyrdd.

Rydym wedi parhau i weithredu'r system gyllid newydd drwy gydol y flwyddyn. Roedd elfen P2P y system angen addasiadau sylweddol er mwyn bodloni ein manyleb, a bu oedi mawr a phrofion ailadroddus. Cafodd y darparwr anhawster hefyd wrth symud yr holl ddogfennau a data yn llwyddiannus. Felly rydym wedi gohirio mynd yn fyw tan 2023/24. Er bod hyn wedi bod yn faich ar adnoddau gweithwyr, mae'r costau gweithredu allanol yn ddinewid.

Bu'n system AD ddwyieithog newydd yn perfformio'n dda, ac fe gafodd ei uwchraddio yn llwyddiannus. Aeth ein modiwl recriwtio dwyieithog yn fyw hefyd.

**Blaenoriaeth Weithredol 5 – Cyrhaeddiad: Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

**Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni**

- Meithrin hyder a dealltwriaeth y cyhoedd yng Nghymwysterau Cymru a'r system gymwysterau.
- Canolbwyntio ar wneud gwelliannau parhaus er mwyn cyflawni gweithgarwch Cyfathrebu ac Ymgysylltu effeithiol
- Cyflawni'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu er mwyn gwella dealltwriaeth o effeithiau'r pandemig ar gymwysterau
- Cyflawni'r cynllun ymgysylltu strategol er mwyn meithrin a datblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid presennol a newydd
- Cyflawni'r strategaeth sianeli digidol er mwyn cyrraedd ein cynulleidfaoedd allweddol yn effeithiol
- Cyfathrebu ac ymgysylltu ar flaenoriaethau Adolygu a Diwygio Cymwysterau Cymru
- Cefnogi cyflawniad ein hamcan Cydraddoldeb – 'Ymgysylltu â'r system gymwysterau a'i hysbysu'

**Cynnydd**

Dros y flwyddyn rydym wedi ymdrechu i fagu hyder a dealltwriaeth y cyhoedd yng Nghymwysterau Cymru a'r system gymwysterau, gan chwilio am ffyrdd newydd o ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid gan ddefnyddio ystod o sianeli.  Lansiwyd 'Dweud Eich Dweud', platfform a gynlluniwyd i alluogi

rhanddeiliaid i ymgysylltu'n hawdd ac i gyfrannu at arolygon ac ymgynghoriadau, a symudom at blatfform rheoli cyfryngau cymdeithasol newydd i'n helpu annog sgwrs a chyfranogiad. Rydym wedi cyfrannu at ganolfan gynnwys 'Lefel Nesa' Llywodraeth Cymru, ymgyrch cymorth arholiadau ar y cyd gyda'r nod o helpu dysgwyr sy'n sefyll arholiadau, yn ogystal â chreu mwy o gynnwys fideo i'w ddefnyddio ar ein gwefan, ar YouTube, ac ar sianeli eraill. Gwnaethom hefyd lansio gwefan newydd, gyda'r nod o wella profiad y defnyddiwr ac i fod yn hygyrch i bawb.

Fe wnaethon ni barhau i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu anffurfiol a ffurfiol â rhanddeiliaid, gyda'n grwpiau rhanddeiliaid sefydledig yn cyfarfod bob tymor. Roedd y gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol a rhoi gwybodaeth iddynt: dysgwyr; arweinwyr ysgolion a cholegau; Addysg Uwch; Consortia Rhanbarthol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol. Fe wnaethom sefydlu grŵp rhanddeiliaid Cymraeg er mwyn cefnogi cyflawniad ein hamcanion strategaeth 'Dewis i Bawb' a buom yn ymgysylltu â phob un o'r undebau athrawon yn unigol. Buom yn cydweithio â nifer o bartneriaid er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad o ran randdeiliaid allweddol ac i gasglu adborth gan ystod o grwpiau amrywiol gan gynnwys; y Comisiynydd Plant; Comisiynydd y Gymraeg; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu; Sefydliad Materion Cymreig; Sefydliad Bevan; Diverse Cymru; Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; y Senedd Ieuenctid a Parentkind.

Cefnogwyd y dychweliad at arholiadau ac asesu ar ôl y pandemig, gan gynnwys creu ymgyrchoedd pwrpasol ynghylch sut i ddychwelyd at arholiadau yn 2022-23. Buom hefyd yn cefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu ar flaenoriaethau adolygu a diwygio allweddol.

Trwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau. Ym mis Hydref, lansiwyd ein rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Cynigion Dylunio ar gyfer TGAU Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig; ym mis Tachwedd gwnaethom lansio ymgynghoriad ar ofynion arfaethedig ar gyfer hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac i hwyluso mynediad atynt; ac ym mis Ionawr fe wnaethom lansio ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd mewn Lletygarwch ac Arlwyo. Ym mis Chwefror lansiwyd ein hymgynghoriad Sicrhau'r Cynnig (TGAU Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig) ac ym mis Mawrth lansiwyd ymgynghoriad ar y cynnig llawn o gymwysterau 14-16, sy'n nodi ein cynigion ar gyfer ystod lawn o gymwysterau cynhwysol ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru, gan gefnogi llwyddiant mewn bywyd, dysgu a gwaith yn y dyfodol. Cefnogwyd pob ymgynghoriad gan gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu a gynlluniwyd i annog ymwybyddiaeth a chyfranogiad yn yr ymgynghoriad. Gwnaethom hefyd ddatblygu dull strategol o gyfathrebu diwygiadau cymwysterau ôl-16, gyda ffocws penodol ar adolygiadau sector.

| **Llofnod** | **Philip Blaker** |
| --- | --- |
| *Philip Blaker* | Swyddog Cyfrifyddu<br>21 Medi 2023 |

## 2.2. Prif risgiau

Disgrifir y prif risgiau a reolwyd gennym yn ystod y flwyddyn isod. Maen nhw'n parhau i fodoli, ac rydyn ni'n parhau i'w monitro'n ofalus.

### Gwelliannau yn ein proffil risg yn ystod 2022-23

Mae ein proffil risg wedi newid ers y llynedd. Mae sawl maes risg allweddol wedi gwella yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gan fod effaith y pandemig wedi lleihau:

- rydym o'r farn bod ein perthynas gyffredinol â rhanddeiliaid wedi gwella, gyda'n dull o gyd-greu a'n cyrhaeddiad ehangach yn dechrau dwyn ffrwyth
- yn sgil newidiadau allweddol i'n tîm cyfathrebu ac ymgysylltu, rydym wedi gweld gostyngiad yn y risg o fethu â chyfathrebu'n effeithiol am ein rôl a'n gwaith
- mae risgiau mewn perthynas ag ymgysylltu â gweithwyr a lles wedi lleihau wrth i ni ffurfioli ein trefniadau gweithio hybrid – gan lwyddo i gadw'r hyblygrwydd o weithio gartref ond â rhagor o ymgysylltu wyneb yn wyneb rheolaidd
- Rydym yn monitro hyfywedd cyrff dyfarnu yn ofalus ac mae'r lefel risg gyffredinol wedi gostwng, er bod rhai materion unigol yn parhau
- roeddem yn gallu cau rhai risgiau ar ôl trosglwyddo'n llwyddiannus yn ôl at gyfresi o arholiadau
- rydym hefyd wedi gweld gostyngiad mewn rhai meysydd risg sy'n ymwneud â'n gwaith ar ddiwygio cymwysterau, er bod risgiau wedi amrywio yn ystod y flwyddyn (fel y trafodir isod)

Disgrifir y prif risgiau a reolir gennym isod. Maen nhw'n parhau i fodoli, ac rydyn ni'n parhau i'w monitro'n ofalus.

### Dyfarnu yn 2023 a 2024

Fe benderfynom yn hydref 2022 y dylai dyfarniad cymwysterau haf 2023 arwain at ganlyniadau oddeutu hanner ffordd rhwng canlyniadau haf 2019 a haf 2022, gyda dychweliad at y safonau a ddefnyddiwyd cyn y pandemig erbyn 2024. Penderfynom hefyd na fyddai'r addasiadau a wnaed ar gyfer haf 2022 yn parhau. Yn hytrach, byddai gwybodaeth yn cael ei ryddhau gan CBAC ymlaen llaw a fyddai'n nodi pa bynciau a themâu a fyddai yn asesiadau haf 2023, a hynny er mwyn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio eu gwaith adolygu ar gyfer yr arholiadau cymwysterau 'Gwneud-i-Gymru'. Roedd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu sut y gwnaeth y blynyddoedd diwethaf darfu ar ddysgwyr, ac roedd hefyd yn lleihau'r risg o darfiadau pellach, boed hynny oherwydd y pandemig neu oherwydd camau diwydiannol posibl. Mae'r ddau benderfyniad yn rhan o'r daith yn ôl at y safonau a ddefnyddiwyd cyn y pandemig erbyn haf 2024.

Er bod y penderfyniad hwn wedi cael croeso gan randdeiliaid, mae rhai risgiau'n parhau o ddewis y dull hwn. Er i ni gyfathrebu ynghylch ein penderfyniad yn fuan, mae'n bosibl na fydd rhai rhanddeiliaid yn deall y newidiadau hyn, a gallai disgwyliadau dysgwyr unigol fod wedi'u codi gan ganlyniadau uwch na'r arfer yn 2020, 2021 a 2022. Efallai y bydd dysgwyr yn dal i ystyried bod eu hamgylchiadau unigol yn wedi arwain at fwy o annhegwch o gymharu ag eraill. Wrth edrych ymlaen, efallai y bydd yn dal i fod yn anodd dychwelyd at safonau cyn y pandemig

yn llwyr erbyn 2024. Risg bellach yw y gall gwahaniaethau ar draws awdurdodau o ran dulliau gweithredu yn 2023 gael effaith ar farn pobl am ganlyniadau yng Nghymru.

Rydyn ni wedi ceisio lliniaru'r holl risgiau hyn drwy fonitro’r sefyllfa’n ofalus, trwy gynllunio senarios, a thrwy ddarparu gwybodaeth gynnar i ddysgwyr, i athrawon ac i rieni, a chan roi cefnogaeth i sefydliadau addysg bellach gydag ymgyrch gyfathrebu barhaus. Rydyn ni wedi parhau i friffio grwpiau rhanddeiliaid gydol yr amser ac rydyn ni hefyd wedi ymgysylltu â'r Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydyn ni’n cynnal deialog rheolaidd â rheoleiddwyr mewn awdurdodaethau eraill a chyda chyrff dyfarnu.

### Diwygio cymwysterau i bobl ifanc 14-16 oed

Byddwn yn parhau gyda’n prosiect i ddiwygio cymwysterau er mwyn cefnogi’r Cwricwlwm newydd i Gymru, gyda’r rhan fwyaf o gymwysterau TGAU diwygiedig i’w haddysgu gyntaf yn 2025, rhai yn 2026, a rhai cymwysterau diwygiedig eraill (sy’n cwblhau’r ‘cynnig llawn’) i’w haddysgu gyntaf yn 2027.

Rydym yn rheoli sawl gwahanol risg o fewn y prosiect hwn - gan gynnwys diwygiadau sydd ddim yn alinio â'r cwricwlwm newydd, sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid, parodrwydd canolfannau, cyfathrebu amserol a chlir gan Lywodraeth Cymru ar bolisi addysg cysylltiedig, adnoddau mewnol a chyrraedd cerrig milltir yn brydlon, dyfarnu capasiti ac ymrwymiad cyrff a gosod safonau dyfarnu yn ystod y cyfnod pontio.

Mae’r dulliau a ddefnyddiom yn y flwyddyn flaenorol, gyda rhanddeiliaid wedi’u cynnwys ym mhob cam o'r datblygiad, wedi lleihau rhai risgiau ynghylch lefelau cefnogaeth ac alinio â'r cwricwlwm. Er nad yw’n cynigion ar newidiadau i gymwysterau Gwyddoniaeth, Saesneg a Chymraeg wedi ennill cefnogaeth yr holl randdeiliaid, rydym wedi ystyried barn rhanddeiliaid yn ofalus ac wedi addasu ein cynigion lle bo hynny'n briodol. Rydym yn lliniaru'r risg hon drwy gyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol, lle gallwn gyfleu’r manteision o integreiddio a rhannu barn y Cymdeithasau Dysgedig a Llywodraeth Cymru.

Mae'r risg ynghylch diffyg eglurder ym mholisi Llywodraeth Cymru wedi lleihau i ryw raddau, ac mae'r eglurder o ran y dull gyda’r Gymraeg wedi cael ei groesawu. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau ynghylch trefniadau ar gyfer mesurau perfformiad/atebolrwydd ysgolion ac ynghylch alinio disgwyliadau o ran graddio a safonau. Rydym yn parhau i liniaru hyn drwy weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a thrwy gynnal trafodaethau 'fforwm polisi' rheolaidd.

Mae caffael adnoddau ar gyfer y gwaith diwygio yn parhau i fod yn risg uchel. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chapasiti cyrff dyfarnu wedi lleihau dros y flwyddyn, ac rydym wedi sicrhau'r cyfranogiad angenrheidiol gan athrawon. Trosglwyddwyd rhywfaint o adnoddau o fewn Cymwysterau Cymru, o reoleiddio i ddiwygio, er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, gan achosi rhai risgiau dros dro i'n gallu i ymateb i faterion rheoleiddio brys. Rydym hefyd wedi cwblhau ein hadolygiad o ba gymwysterau eraill sydd eu hangen i gyd-fynd â’r cymwysterau TGAU, gan ystyried yr adnoddau a fydd yn ofynnol i ddarparu'r 'cynnig llawn' hwn. Nodwyd bod angen recriwtio gweithwyr ychwanegol. Bu’r risg hon yn uchel iawn am rai misoedd, ond cafodd ei lliniaru'n llwyddiannus pan gytunodd Llywodraeth Cymru i drosi cyllid dros dro yn gyllid craidd, gan alluogi i ymgyrch recriwtio gael ei gwblhau’n llwyddiannus er mwyn llenwi swyddi parhaol.

Mae'r cyllid ar gyfer 2024 ymlaen yn parhau i fod yn ansicr, ac rydym yn parhau i drafod ein hanghenion adnoddau gyda Llywodraeth Cymru ac yn monitro'r risgiau o beidio â chynllunio'n effeithiol.

### Rheoli Newid

Gyda phob diwygiad, mae risg na fydd canolfannau wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer newid, ac y gallai hyn effeithio ar ddarparu cymwysterau newydd yn llwyddiannus, gan gyfyngu ar y manteision a chan effeithio ar hyder y cyhoedd. Tra bo ysgolion yn paratoi ar gyfer cymwysterau sy'n cefnogi'r cwricwlwm newydd, mae colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith hefyd yn rheoli newidiadau sy'n cael eu gwneud i gymwysterau galwedigaethol. Yn dilyn ein hadolygiadau o sut cyflwynwyd y cymwysterau newydd diwygiedig mewn iechyd a gofal cymdeithasol ac adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu, rydym wedi cynyddu'r sgôr risg mewn perthynas â rheoli newid, ac mae'n parhau i fod yn uchel. Rydym yn lliniaru hyn drwy gynnal asesiadau effaith ar gyfer newidiadau a'r adnoddau sydd eu hangen, a thrwy barhau i fonitro'r holl gymwysterau diwygiedig, gan weithio gyda chyrff dyfarnu ar unrhyw faterion a nodwyd. Rydym hefyd wedi sefydlu grwpiau sector er mwyn hwyluso trafodaeth reolaidd rhwng cyrff dyfarnu a chanolfannau.

### Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol

Yn dilyn sefydliad y Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bod am gynnal adolygiad o gymwysterau galwedigaethol er mwyn ystyried sut i gyflawni'r nod o gael mwy o gymwysterau "Gwneud-i-Gymru". Rydym yn darparu cyngor a mewnbwn technegol i'r adolygiad. Mae'r adolygiad yn creu nifer o risgiau posibl i ni - gallai'r argymhellion fod yn anghyraeddadwy yn ariannol neu'n ymarferol, neu gallai cyrff dyfarnu ystyried mai diben yr adolygiad yw cefnogi cyrff dyfarnu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Gallai hyn eu gwneud yn llai tebygol o fuddsoddi mewn cynnig cymwysterau dwyieithog a byddai effaith y risg hon yn tyfu pe bai unrhyw oedi cyn cwblhau'r adolygiad. Rydym yn lliniaru'r risgiau hyn drwy weithio'n agos gyda'r panel adolygu a thrwy gynnal trafodaethau rheolaidd gyda chyrff dyfarnu.

### Risgiau'r system addysg

Rydyn ni'n edrych ar draws y system gymwysterau ac yn cadw llygad barcud ar yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas. Ar wahân i'r cymwysterau hynny sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer Cymru, mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol eraill yn cael eu cynnig ledled y DU. Mae polisïau addysg a sgiliau yn Lloegr yn parhau i esblygu i gyfeiriadau gwahanol i'r rhai yng Nghymru. O ganlyniad, mae perygl y bydd rhai cymwysterau yn peidio â bod ar gael yng Nghymru. Mae risg hefyd bod angen i gyrff dyfarnu ganolbwyntio adnoddau ar ymateb i newidiadau yn Lloegr.

Er bod gostyngiadau yn y cynnig o gymwysterau o'r fath yn gallu lleihau'r dewis i bob dysgwr, gallan nhw gael effaith anghymesur ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg gan ei bod yn bosibl mai'r cymhwyster penodol hwnnw yw'r unig un sydd ar gael iddynt.

Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â'r cyrff dyfarnu hynny sy'n cynnig cymwysterau i nifer fawr o ddysgwyr yng Nghymru. Rydym ni'n archwilio cyfleoedd i sicrhau bod cymwysterau ar gael yng Nghymru, ac yn eu cefnogi i gynnig rhagor o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â'n strategaeth cyfrwng Cymraeg, 'Dewis i

Bawb', rydym hefyd yn ceisio nodi pa gymwysterau a ellid eu defnyddio i lenwi unrhyw fylchau. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ail gam ein gwaith adolygu sector ar argaeledd generig cymwysterau ôl-16 ac, yn benodol, y rhai sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 2.3 Adolygiad ariannol

Caiff Cymwysterau Cymru ddyraniad cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am ei wariant. Yn unol â Fframwaith Ariannol y Sector Cyhoeddus, rydym yn derbyn cymysgedd o refeniw, cyfalaf a chyllid 'nad yw'n arian parod' (mae cyllid nad yw'n arian parod yn cyflenwi ar gyfer y costau dibrisiant / amhariad asedau y mae'n ofynnol i bob endid sy'n dilyn egwyddorion a safonau cyfrifyddu seiliedig ar adnoddau eu cydnabod). Rydyn ni hefyd yn cynhyrchu ychydig bach o incwm bob blwyddyn, drwy ddarparu gwasanaethau cymorth TG i ddau Gorff llai a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydyn ni'n cael caniatâd i'w ailfuddsoddi yn ein gweithgareddau. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd y cyllid canlynol ar gael i ni:

| Math o gyllid | Refeniw £'000 | Cyfalaf £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyllid Llywodraeth Cymru** | | | |
| Cyllid Craidd | 8,067 | 250 | 8,317 |
| Grant Cymraeg i Oedolion | 200 | 0 | 200 |
| Cymwys ar gyfer y Dyfodol | 1,350 | 0 | 1,350 |
| Cyllid refeniw nad yw'n arian parod | 250 | 0 | 250 |
| **Cyfanswm y Cyllid (yn seiliedig ar adnoddau)** | **9,867** | **250** | **10,117** |
| Cyfanswm y cyllid ac eithrio dyraniad arian parod | 9,617 | 250 | 9,867 |
| Gyda'r Incwm a Gynhyrchir | 41 | 0 | 41 |
| **Cyfanswm y Cyllid sydd ar Gael** | **9,658** | **250** | **9,908** |

I gydnabod y posibilrwydd y gallai ein hanghenion ariannu ar gyfer *Cymwys ar gyfer y Dyfodol* (QFF) godi'n uwch na'r dyraniad o £1.35m, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid pellach o hyd at £150k hefyd. O ganlyniad, gwnaethom gynnwys y rhagdybiaeth ariannol ychwanegol hon yn ein cyllideb gychwynnol ar gyfer 2022-23, gan osod cyllideb o £10.058m (£9.908m a £150k). Unwaith y daeth yn amlwg yn ystod y flwyddyn bod ein hanghenion cyllidebol ar gyfer Cymwys ar gyfer y Dyfodol yn cyd-fynd â'r dyraniad gwreiddiol, gwnaethom ddileu'r £150k ychwanegol a gostwng ein gofyniad cyllideb gyffredinol i £9.908m.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ac yn unol â'n Cynllun Cyllid Tymor Canolig a'n Cynllun Gweithredu, fe wnaethon ni osod cyllideb gwariant er mwyn cyflawni'r gweithgareddau roedden ni'n bwriadu ymgymryd â nhw, wedi'i rhannu'n ymarferol yn feysydd bras fel a ganlyn:

- **Costau staff**
- **Grantiau i gyrff eraill**, er mwyn cefnogi'r system gymwysterau ac anghenion dysgwyr, drwy sicrhau bod asesu cyfrwng Cymraeg ar gael ac ariannu gweithgareddau penodol sy'n galluogi diwygio cymwysterau

- **Cyllidebau rhaglen**, i gomisiynu'r cymorth a'r arbenigedd allanol sydd eu hangen i gyflenwi ein rhaglen o adolygu a diwygio cymwysterau, i reoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau yng Nghymru, ac i wneud gwaith ymchwil
- **Costau gweithredu corfforaethol**, fel Adnoddau Dynol, TG, cyfleusterau, llywodraethu, cyngor cyfreithiol ac ati

Mae'r tabl isod yn cadarnhau ein sefyllfa gwariant a chyllid ar gyfer y flwyddyn, o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol.

| Maes | Alldro 2019-20 | Alldro 2020-21 | Alldro 2021-22 | Cyllideb 2022-23 | Alldro 2022-23 | Amrywiant Alldro | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Meysydd Cyllideb Graidd** | | | | | | | |
| Cyflog | 4,829 | 5,079 | 5,372 | 5,575 | 5,567 | -8 | 0% |
| Grantiau | 660 | 538 | 476 | 621 | 561 | -60 | -10% |
| Costau Rhaglenni | 936 | 414 | 374 | 498 | 460 | -38 | -8% |
| Costau Gweithredu | 1,380 | 1,157 | 1,303 | 1,564 | 1,456 | -108 | -7% |
| **Cyllid Craidd CC** | **7,806** | **7,188** | **7,525** | **8,258** | **8,044** | **-214** | **-3%** |
| Grant Cymraeg i Oedolion | 190 | 176 | 195 | 200 | 200 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **7,996** | **7,364** | **7,720** | **8,458** | **8,244** | **-214** | **-3%** |
| **Cyllidebau Cymwys ar gyfer y Dyfodol** | | | | | | | |
| Cyflog | 196 | 567 | 774 | 1,100 | 981 | -119 | -11% |
| Costau Rhaglenni | 119 | 115 | 351 | 337 | 296 | -41 | -12% |
| Costau Gweithredu | 4 | 4 | 17 | 13 | 49 | 36 | 277% |
| | **319** | **686** | **1,142** | **1,450** | **1,326** | **-124** | **-9%** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **8,315** | **8,050** | **8,862** | **9,908** | **9,570** | **-338** | **-3%** |
| **Ariannwyd Gan** | | | | | | | |
| **Grant Craidd LlC** | **8,000** | **7,100** | **7,250** | **8,317** | **8,003** | | |
| **Cyllid Cymraeg i Oedolion** | **190** | **176** | **195** | **200** | **200** | | |
| **Cyllid Cymwys ar gyfer y Dyfodol** | **0** | **686** | **1,142** | **1,350** | **1,326** | | |
| **Incwm** | **0** | **41** | **41** | **41** | **41** | | |
| **Defnydd o Gronfa Wrth Gefn** | **125** | **47** | **234** | **0** | **0** | | |
| **Cyfanswm** | **8,315** | **8,050** | **8,862** | **9,908** | **9,570** | | |

Ein gwariant o £9.57m yn 2022-23 yw'r ffigwr gwariant uchaf ers i ni gael ein sefydlu yn 2015. Mae ein tanwariant o £338k (3% o'r gyllideb) yn unol â'r sefyllfa yr oeddem wedi bod yn ei rhagweld ers rhai misoedd, ac fe gafodd ei gyfleu'n llawn i'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y mathau o amrywiadau gwariant a gawson ni eleni yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| **Costau cyflog (Craidd a Cymwys ar gyfer y dyfodol)** | Parhaodd ein gwariant cyflog craidd i gynyddu yn unol â'n Cynllun Cyllid Tymor Canolig ac roedd yn unol â'r gyllideb, gan gadarnhau bod ein trosiant uwch na'r disgwyl wedi ein galluogi i gwmpasu'r gorymrwymiad cyllidebol cychwynnol o £200k, a'r dyfarniad cyflog 2022-23. |

| | |
|---|---|
| | Cynyddodd ein gwariant ar gyflogau Cymwys ar gyfer y dyfodol o gymharu â 2021-22, gan adlewyrchu'r cynnydd parhaus yn nifer y staff i gyflawni'r gwaith diwygio yma. Fodd bynnag, ni chafodd yr holl recriwtio ei wneud yn unol â'r tybiaethau gwreiddiol, a hynny'n bennaf oherwydd amseriad anghenion adnoddau ychwanegol yn newid wrth i ffrydiau gwaith gael eu hailgynllunio, felly bu tanwario ar y gyllideb hon.. |
| **Grantiau i gyrff eraill** | Er gwaethaf gor-ymrwymo £50k i'r gyllideb grantiau cystadleuol o £180k, a hynny'n yn seiliedig ar ein profiad o flynyddoedd blaenorol, unwaith eto roedd cyfanswm gwirioneddol y ceisiadau ymhell islaw'r gyllideb. Mae hyn oherwydd nad yw rhai cyrff dyfarnu angen lefel yr arian y maent yn ymgeisio amdano. Yn anffodus, yn aml ni ddaw'r amrywiadau hyn i'r amlwg nes y bydd hi'n hwyr yn y flwyddyn ariannol, ac erbyn hynny ni allwn ddyrannu'r cyllid i feysydd eraill. Mae'n faes gwariant lle'r ydym yn ceisio gwella ein gweledebb trwy'r adeg. |
| **Gweithgareddau Rhaglenni Craidd** | Bu llai o danwariant yn y maes hwn o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r ymarfer ail-alinio cyllideb a gynhaliwyd ar ddechrau'r flwyddyn, a ryddhaodd gyllid o'r maes hwn i'n cyllideb gyflog. Roedd rhai amrywiadau yn y gyllideb pan benderfynwyd yn ystod y flwyddyn i ddargyfeirio capasiti i'n rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol, a arweiniodd at leihau gwariant ar weithgareddau monitro ac ymgysylltu. |
| **Costau Rhedeg Craidd** | Gwnaethom danwario £108k yn erbyn ein cyllidebau costau rhedeg £1.5m, lle na chafodd rhai darpariaethau eu defnyddio'n llawn. |
| **Cyllidebau Cymwys ar gyfer y dyfodol nad ydyn nhw'n ymwneud â chyflogau** | Yn y maes sylweddol hwn o weithgarwch a diwygiadau mawr y gwelom ni'r amrywiad cyllidebol mwyaf, a hynny fel y rhagwelwyd. Fel yr adroddwyd y llynedd, ein prif weithgaredd yn y maes hwn oedd y gwaith datblygu ar y cyd, sy'n cynnwys 24 o Weithgorau Lefel Pwnc, pob un o fewn un o'r chwe grŵp Rhwydwaith MDPh, a chomisiynu tua 50 o gynghorwyr pwnc ac 80 o ymarferwyr. Unwaith eto, roedd y gwariant yn yr maes hwn yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. |

Roedd £263k o'n gwariant o £9.57m yn gysylltiedig â chyfalaf, sydd ychydig yn fwy na'r dyraniad cychwynnol o £250k. Daeth yr angen ychwanegol hwn i wario i'r amlwg yn gynnar yn y flwyddyn ariannol ac fe'i cymeradwywyd gan gydweithwyr Llywodraeth Cymru.

Daeth IFRS 16, y safon cyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesau, i rym ar 1 Ebrill 2022. Cyflwynwyd gofyniad newydd i gyfrifo a chydnabod gwerth ased 'Hawl i Ddefnyddio', yn ogystal â'r atebolrwydd cyfatebol a'r costau dibrisiant ac ariannu cysylltiedig, ar gyfer yr holl brydlesau newydd a phresennol a gwmpesir gan y safon, gan ddisodli'r dull blaenorol o gydnabod y costau prydles blynyddol fel gwariant refeniw.

Roedd y newid hwn o ran cyfrifyddu hefyd yn gofyn am addasiad cyllideb yn ystod y flwyddyn ar draws y llywodraeth ganolog, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd yr addasiad hwn o'r gyllideb gan Gynnig Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022.

- Dyrannwyd rhagor o gyllidebau (cyfalaf) i ni er mwyn talu am unrhyw brydlesau newydd a gynlluniwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 (daeth Trysorlys EM i'r casgliad nad oedd yn ofynnol i gyllidebau cyfalaf gwmpasu'r prydlesau presennol sy'n cael eu cydnabod fel asedau a rhwymedigaethau hawl i ddefnyddio am y tro cyntaf ar 1 Ebrill 2022)
- Derbyniom gyllidebau refeniw newydd ar gyfer y taliadau dibrisiant ac ariannu sy'n gysylltiedig â'r phrydlesau presennol a newydd a gwmpesir gan y safon, a
- Gostyngwyd ein cyllideb refeniw bresennol er mwyn cydnabod nad oedd y costau prydles blynyddol, er eu bod yn all-lif arian parod sydd angen grant mewn cymorth, yn cael eu cydnabod bellach fel gwariant sy'n seiliedig ar adnoddau.

Roedd angen gwneud addasiadau pellach i'n cyfrifon rheoli er mwyn cynhyrchu ein 'Gwariant Net Cynhwysfawr' yn ein 'Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr' (SOCNE). Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth sy'n dangos sut mae ein cyfrifon rheoli wedi'u haddasu i gynhyrchu ein Gwariant Net Cynhwysfawr (unwaith y cyfrifir am wariant cymhwyso cyfalaf, trafodion adnoddau heb arian parod a thaliadau dibrisiant / amorteiddio.)

| **Cysoni'r Alldro â SOCNE** | **£'000** |
|---|---|
| Alldro'r Gyllideb | 9,570 |
| Eithrir gwariant sy'n cael ei drin fel rhywbeth nad yw'n gyfredol (cyfalaf) | (263) |
| Ychwanegu dibrisiant / amorteiddiad / nam | 203 |
| Wedi'i addasu i gydnabod symudiadau nad oeddent yn rhai arian parod (croniad Gwyliau Blynyddol a newidiadau darpariaeth). | (42) |
| Ychwanegu IFRS 16 Ased Hawl i Ddefnyddio - Tâl dibrisiant | 94 |
| Ychwanegu IFRS 16 Ased Hawl i Ddefnyddio - Costau Ariannu | 62 |
| Dileu IFRS 16 Llif arian prydlesau | (108) |
| Defnydd incwm TG a gynhyrchwyd | (41) |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | **9,475** |

Roedd ein ffigwr addasedig ar gyfer gwariant dibrisiant cyn IFRS 16 (£203k) o fewn y dyraniad cyllideb nad yw'n arian parod o £250,000, ac roedd yr addasiadau cyfrifyddu a wnaed ar gyfer IFRS 16 hefyd yn cael eu cynnwys gan y newidiadau cyllideb a wnaed gan Gynnig Cyllideb Atodol Mehefin 2022.

Bydd natur ein cyllid a'n gweithgarwch yn parhau i gyflwyno tair her ariannol gynhenid i ni bob blwyddyn:

- mae perygl bob amser na fydd ein dyraniad cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn cyfateb i'r hanghenion gwariant yr ydym yn eu rhagweld
- rhaid i ni sicrhau bod unrhyw gynigion/ymrwymiadau gwariant cylchol newydd yn fforddiadwy dros y tymor canolig

- oherwydd nad yw ein rhaglen / gweithgareddau diwygio yn 'ffitio' yn dwt i flynyddoedd ariannol, ac am fod rhaid i ni neilltuo symiau dros dro i dalu am ymrwymiadau posibl (fel costau cyfreithiol, costau recriwtio ac ati), bydd rhywfaint o ansicrwydd bob amser ynghylch lefel ac amseriad rhai mathau o wariant
- Er mwyn cyflawni ein nod o sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r cyllid sydd ar gael, rydym yn datblygu ac yn defnyddio modelau ariannol sy'n gor-ymrwymo yn erbyn cyllidebau penodol ar y dechrau, yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd symudiad yn ystod y flwyddyn yn dod â gwariant yn ôl yn unol â chyllidebau. Er ein bod yn ddarbodus, mae risg na fydd y symudiadau'n arwain at y lefel o arbedion sydd eu hangen

Byddwn yn parhau i gynnal ein Cynllun Cyllid Tymor Canolig, gan sicrhau deialog agored â Llywodraeth Cymru, a bydd gennym drefniadau rheoli ariannol 'yn ystod y flwyddyn' cryf.

Gwnaethom brosesu 1,327 o anfonebau i'w talu yn 2022-23, 249 (19%) yn fwy nag yn 2021-22 (1,078), talwyd 99% o'r anfonebau hyn o fewn 30 diwrnod (98% yn 2021-22), a thalwyd 73% o'n hanfonebau o fewn 10 diwrnod (68% yn 2021-22)[1]. Rydyn ni'n parhau i ofyn am eglurhad pan fod taliad yn hwyrach na'n targedau ac rydym yn gwella prosesau lle bo angen.

Ein balans arian parod ar 31 Mawrth 2023 oedd £62k, sydd ymhell o fewn y terfyn cario drosodd o £197k sy'n cael ei ganiatáu gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd sylw priodol ei roi i reoleidd-dra a phriodoldeb gwariant y sefydliad, a bernir bod prosesau a rheolaethau mewnol priodol ar waith.

Mae disgwyl i Cymwysterau Cymru barhau i fodoli a chael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru am beth amser eto, sy'n golygu ei bod yn briodol mabwysiadu'r sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

## 2.4 Cynaliadwyedd


Mae Cymwysterau Cymru yn llenwi ardal o 11,329 troedfedd sgwâr yn Adeilad Q2, mewn un swyddfa a rennir i'r gorllewin o Gasnewydd.

Oherwydd pandemig COVID-19, caewyd y swyddfa ym mis Mawrth 2020 a pharhaodd i fod ar gau i weithwyr tan fis Mehefin 2021, pan wnaethom ailagor i ganiatáu i weithwyr ddychwelyd os oeddent yn awyddus. Ym mis Mai 2022 fe wnaethom fabwysiadu dull gweithio hybrid, pan ofynnwyd i'r holl weithwyr ddychwelyd i'r swyddfa gyda'r disgwyliad cyffredinol y byddent yn gweithio o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos yno. Mae'n hawdd cyrraedd yr adeilad â char; ond mae'n anoddach ar drafnidiaeth gyhoeddus, felly bydd y dull gweithio hybrid yn helpu i leihau'r effaith teithio/cymudo ein staff ar yr amgylchedd.


[1]Yn absenoldeb diffiniad statudol ar gyfer y targed '10 diwrnod', rydyn ni'n mesur yr amser rhwng anfoneb ddilys a gaiff Cymwysterau Cymru, a phryd y caiff y taliad ei wneud i gyfrif banc y cyflenwr.

Mae ein dull modern a hyblyg o ymdrin â TG, gan ddefnyddio'r technolegau diweddaraf, wedi caniatáu i ni symud yn ddiffwdan o weithio mewn swyddfa yn 2019/20 i weithio gartref yn 2020 ac yn fwy diweddar i weithio hybrid yn 2022. Mae ein seilwaith TG yn bodoli ar gwmwl yn bennaf, sy'n golygu nad oes arnom angen gweinyddion mawr ar y safle. Mae ein gweithwyr i gyd yn cael llechi datgysylltiol 'dau mewn un', er mwyn iddyn nhw gael mynediad at y gwasanaethau cwmwl o unrhyw le lle ceir cysylltiad di-wifr.
Rydym yn darparu adroddiad allyriadau carbon blynyddol i Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi eu gwaith i fapio llwybr ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030. Ers 2021/22, mae'r ffigyrau wedi cynnwys amcangyfrif o effaith gweithio gartref. Yn 2022, cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Lleihau Carbon ein hunain.

Gan y bu rhaid cau’r swyddfa yn 2020, a chyda dechwyelyd i’r swyddfa yn ddewisol ers 2021, ni fydd ffigyrau 2021-22 yn adlewyrchu ein defnydd arferol o drydan. Felly, mae'r graff isod yn dangos defnydd trydan 2022-23 yn erbyn ffigurau 2019-20. Gan ddefnyddio 2019-20 fel meincnod, mae'r graff yn dangos gostyngiad o dros 10,500kwh yn ein defnydd o drydan. Wrth symud ymlaen, rydym yn gobeithio gweld y duedd hon yn parhau oherwydd ein bod wedi gosod synwyryddion presenoldeb ym mhob ystafell gyfarfod yn ddiweddar sydd wedi’u cysylltu â'r system wresogi ac oeri.




Dangosodd pandemig y coronafeirws bod modd gweithio o bell yn llwyddiannus, ac o ganlyniad rydym wedi sicrhau bod pob gweithiwr yn ystyried a ydynt angen teithio ar gyfer busnes, gan leihau teithio diangen a chan annog teithio cyfrifol a chynaliadwy wrth gyflawni ein dyletswyddau. Ers dychwelyd at y drefn arferol, rydym wedi lleihau faint o deithiau busnes y mae ein gweithwyr yn ei wneud mewn ceir o bron i 60,000 o filltiroedd o gymharu â 2019/20, ac wedi lleihau teithiau ar reilffyrdd o bron i 43,000 milltir.




Mae'r gwastraff rydyn ni'n ei greu wedi'i wahanu'n bedair ffrwd. Rydym wedi gweld cynnydd bach mewn gwastraff cyffredinol a gwastraff bwyd ers 2021-22, ac mae hynny o ganlyniad i staff yn dychwelyd i'r swyddfa yn fwy rheolaidd. Mae ein hailgylchu cymysg wedi cynyddu'n sylweddol ers 2021-22, credwn fod hyn oherwydd bod staff yn ailgylchu mwy ac oherwydd i ni waredu llawer o bapur a gwneud gwaith clirio cyffredinol cyn i'r swyddfa gael ei haildrefnu ym mis Hydref 2022. Mae cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) cymysg wedi'i wahanu yn y ffigyrau am y tro cyntaf eleni. Ar y cyfan, ar draws y pedair ffrwd mae ein gwarediad gwastraff draean yn is o gymharu â 2019-20. Wrth symud ymlaen, rydym yn disgwyl i'r data gwastraff sefydlogi ar lefelau tebyg i eleni, wrth i ni barhau â'n dull gweithio hybrid.

Mae gennym Ddatganiad Polisi Amgylcheddol ar waith, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr. Roeddem wedi bwriadu sefydlu System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ac ennill achrediad Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn 2020-21. Fodd bynnag, gyda'r swyddfa ddim yn cael defnydd rheolaidd bryd hynny, ni fyddai'r mesurau wedi bod yn adlewyrchiad cywir o effaith ein busnes. Nawr bod y busnes hwnnw wedi dychwelyd i'r drefn arferol, byddwn yn parhau â'r nod yn 2023/24.

| **Cwmpas** | **Gwybodaeth anariannol** | **Gwybodaeth anariannol** | **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** |
|---|---|---|---|
| Cwmpas 1 - Allyriadau uniongyrchol: | Amh | Amh | Amh |
| Cwmpas 2 (Ynni anuniongyrchol ): | **Trydan** 70,436 kwh | £23,375.43 | 18,423 kg CO2e |
| | **Nwy-F*** 39kg | amh | 46,098 kg C02e |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwmpas 3: | **Dŵr** 140 uned (**)<br>**Carthffosiaeth** 133 uned<br>**Cyfanswm 273 uned** | £394.16<br>£524.13<br>**Cyfanswm £918.29** | 21 kg CO2e<br>36 kg CO2e<br>**Cyfanswm 57 kg CO2e** |
| | **Gwastraff**<br>Cyffredinol – 308 kg gwastraff<br>Bwyd – 266 kg gwastraff<br>Cymysg – 544 kg ailgylchu<br>WEEE Cymysg - 88kg<br><br>**Cyfanswm 1206kg** | **Gwastraff**<br>Cyffredinol - £474 gwastraff<br>Gwastraff bwyd - £650<br><br>Cymysg - ailgylchu £462<br>WEEE Cymysg (wedi'i gynnwys uchod)<br><br>**Cyfanswm £1586** | **Gwastraff**<br>Cyffredinol – 1447kg CO2e gwastraff<br>Bwyd – 3kg CO2e gwastraff<br>Cymysg – 11.5 CO2e ailgylchu<br>WEEE Cymysg - 1.9kg<br><br>**Cyfanswm 160 kg CO2e** |
| | **Teithio ar fusnes** | | |
| | **Car**<br>Staff - 14,373 milltir<br>Bwrdd - 6,694 milltir<br>Aelodau<br>**Cyfanswm Milltiroedd – 21,067** | **Car**<br>Staff - £6,486<br>Bwrdd - £3,008<br>Aelodau<br>**Cyfanswm - £9,494** | **Car (***)**<br>Staff - 3,840kg CO2e<br>Bwrdd - 1,745kg CO2e<br>Aelodau<br>**Cyfanswm - 5,585kg CO2e** |
| | **Tacsi**<br>Staff - 892 milltir<br>Bwrdd - 49 milltir<br>Aelodau<br>**Cyfanswm Milltiroedd - 941** | **Tacsi**<br>Staff - £862<br>Bwrdd - £102<br>Aelodau<br>**Cyfanswm - £964** | **Tacsi**<br>Staff - 299kg CO2e<br>Bwrdd - 16kg CO2e<br>Aelodau<br>**Cyfanswm - 315 kg CO2e** |
| | **Trên**<br>Staff - 3,688 milltir<br>Bwrdd - 240 milltir<br>Aelodau<br>**Cyfanswm Milltiroedd – 3,928** | **Trên**<br>Staff - £1,507<br>Bwrdd - £ 128<br>Aelodau<br>**Cyfanswm - £1635** | **Trên**<br>Staff - 263kg CO2e<br>Bwrdd - 17kg CO2e<br>Aelodau<br>**Cyfanswm - 280kg CO2e** |
| | **Awyr**<br>Staff - 13,889 milltir<br>Bwrdd - 1,964 milltir<br>Aelodau<br>**Cyfanswm Milltiroedd – 15,853** | **Awyr**<br>Staff - £3,134<br>Bwrdd - £666<br>Aelodau<br>**Cyfanswm - £3,800** | **Awyr**<br>Staff - 6,587kg CO2e<br>Bwrdd - 530kg CO2e<br>Aelodau<br>**Cyfanswm - 7117kg CO2e** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Amcangyfrif o Gymudo Staff**** ** | | |
| | Car 194,831 milltir | | Car 69,552 kg CO2e |
| | Bws 514 milltir | | Bws 100 kg CO2e |

**Nodiadau i egluro'r tabl**

Cwmpas 1: Mae allyriadau uniongyrchol yn deillio'n uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo i Cymwysterau Cymru neu a reolir gan Cymwysterau Cymru, er enghraifft, o danwyddau a ddefnyddir yn ein boeleri, neu'r cerbydau y mae adrannau a rheolwyr ystadau yn berchen arnyn nhw.

Cwmpas 2: Allyriadau a ryddheir i'r atmosffer sy'n gysylltiedig â defnyddio trydan, gwres, stêm a systemau oeri a brynwyd.

Cwmpas 3: Mae'r allyriadau hyn yn deillio o weithgareddau sefydliad, ond maent yn digwydd o ffynonellau nad ydynt yn eiddo i'r sefydliad nac yn cael eu rheoli gan y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â gwastraff, dŵr, teithio ar fusnes, cymudo a chaffael.

(*) Mae Nwy-F wedi'i ychwanegu i'r tabl am y tro cyntaf. Defnyddir hwn yn y system aerdymheru a ddarperir gan y landlord.

(**) Amcangyfrifwyd y ffigurau ar gyfer defnyddio a chostau dŵr ar gyfer Chwarter 4 yn seiliedig ar gyfradd rhedeg, gan fod y cyfleustod hwn yn cael ei filio bob chwe mis.

(***) Cyfrifwyd y ffigurau ar gyfer CO2 ceir gan ddefnyddio Ffactorau Trosi nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer Adrodd am Gwmnïau – yn seiliedig ar fath o gar 'canolig uchaf'.

(****) Mae ffigurau cymudo staff a gyfrifwyd gan ddefnyddio codau post cartrefi staff yn croesgyfeirio â'r system archebu desgiau i gadarnhau presenoldeb. Mae'r allyriadau'n seiliedig ar fath o gar canolig uchaf.

## Allyriadau gweithredol a'r gadwyn gyflenwi

Rydym eisoes wedi adrodd am effaith ein hallyriadau carbon i Lywodraeth Cymru ar gyfer blynyddoedd 2019-20 a 2021-22 er mwyn cynorthwyo gyda'u targed sector cyhoeddus cyffredinol 'carbon sero net' ar gyfer 2030. Mae hon bellach yn broses flynyddol reolaidd. Rydym hefyd wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer Lleihau Carbon ein hunain.

Roedd model Llywodraeth Cymru yn cwmpasu allyriadau gweithredol (trydan, gwastraff a dŵr), allyriadau'r gadwyn gyflenwi (wedi'u cyfrifo yn ôl gwerth y defnydd o nwyddau a gwasanaethau a brynir wedi'u lluosi gan ffactor allyriadau a dynnwyd o'r cod diwydiant SIC penodol), a theithio busnes, cymudo staff a gweithio gartref (gyda chyfrifiad wedi'i ddarparu ar gyfer gweithio gartref).

| | Cyfanswm allyriadau kg C02e | Adeiladau (trydan, dŵr, NwyF a gwastraff) | Teithio Busnes, cymudo a gweithio gartref | Allyriadau Cadwyn Gyflenwi |
|---|---|---|---|---|
| 2019-20 | 727,469 kg | 21,232 kg | 318,330 kg | 387,906 kg |
| 2021-22 | 322,917.5 kg | 21,226.5 kg | 72,279 kg | 301,691 kg |
| **2022-23** | **467,446 kg** | **64,738 kg** | **85,371 kg** | **317,357 kg** |

**Allyriadau adeiladau** (trydan, Nwy-F, gwastraff, dŵr): Mae'r cynnydd sylweddol yn 2022-23 o ganlyniad i gynnwys Nwy-F yn y model (46,098kg), sy'n cael ei ddefnyddio yn y system wresogi ac oeri a osodwyd gan y landlord. O ran trydan, dŵr a gwastraff (18,639kg), bu gostyngiad bach. Ym mis Mai 2022 dychwelom at weithio 2 ddiwrnod yr wythnos yn y swyddfa, gyda holl gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal yn y swyddfa. Rydym yn disgwyl i'r ffigurau sefydlogi ar y lefelau hyn ac i'r gwelliannau o gymharu â'n llinell sylfaen yn 2019 barhau. Rydym hefyd wedi gosod synwyryddion presenoldeb ym mhob ystafell gyfarfod sydd wedi'u cysylltu â'r system wresogi ac oeri, a bydd hyn yn ein helpu i leihau ein heffaith carbon ymhellach.

**Teithio Busnes, cymudo a gweithio gartref:** Mae hyn wedi cynyddu ers y llynedd oherwydd ein bod wedi mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys rhywfaint o deithio i ymgysylltu â rhanddeiliaid neu i gyrraedd cynadleddau. Mae'r ffigurau yn sylweddol is na 2019-20 ac rydym yn disgwyl iddynt sefydlogi ar y lefelau presennol.

**Allyriadau cadwyn gyflenwi:** Cynyddodd ein gwariant caffael o £429,048, gan godi o £1,585,133 yn 2021/22 i gyrraedd £2,014,181 yn 2022/23. Roedd cynyddiadau sylweddol a oedd yn ymwneud â dodrefn ar gyfer ail-ddylunio'r swyddfa a chaledwedd TG a datblygiadau i gronfa ddata QiW. Cafodd effaith gyffredinol y gwariant cynyddol hwn ei wrthbwyso gan newidiadau ym model LlC, lle mae'r cyfrifiadau ar gyfer sawl cod SIC wedi'u gostwng yn sylweddol (roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau proffesiynol a ddarperir o bell, a gwasanaethau cyfrifiadurol fel meddalwedd). Y flwyddyn nesaf byddwn yn olrhain teithio arbenigwyr pynciau ac yn rhagweld y bydd hyn yn arwain at leihad yn y ffigurau allyriadau cysylltiedig.

# Adroddiad Atebolrwydd

## 3 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### 3.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru yn cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a rhwng wyth a deg aelod. Ei rôl yw:

- rhoi arweiniad effeithiol i Cymwysterau Cymru - gan ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a gosod amcanion
- rhoi arweiniad effeithiol ar gyfer gweithredu'r sefydliad - gan ddwyn y Prif Weithredwr i gyfrif am sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol
- monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn
- hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian

Yn ystod 2022-23, roedd y Bwrdd yn cynnwys yr aelodau canlynol:



Gadawodd Sharron Lusher ar 15/07/2022 er mwyn arwain yr Adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol Llywodraeth Cymru. Disgwylir iddi ail-ymuno â'r bwrdd yn 2023 ar ôl i'r adolygiad ddod i ben.


Ymunodd Ravi Pawar â'r bwrdd fel ymgynghorydd arbennig yn ystod 2022/23. Er nad yw'n cael ei ystyried yn aelod llawn o'r Bwrdd, mae'n cynorthwyo'r bwrdd drwy rannu ei brofiad perthnasol o'r sector addysg yng Nghymru.

### Cadeirydd Cymwysterau Cymru

Mae Cadeirydd Cymwysterau Cymru, David Jones, yn ateb i Senedd Cymru am ein gweithgarwch a'n hymddygiad, ac am arfer ein swyddogaethau statudol fel y'u nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru.

### Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi dynodi pedwar pwyllgor sy'n gyfrifol am gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau. Dyma'r pwyllgorau:




Mae modd gweld rôl pob pwyllgor, ynghyd â phresenoldeb, yn adran y Datganiad Llywodraethu.

Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru a'i bwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli yn cael ei gefnogi gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol.

### Buddiannau aelodau'r Bwrdd

Mae pob aelod o staff ac aelod bwrdd wedi llenwi ffurflen gwrthdaro/datgan buddiannau. Mae Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi cofrestr weithredol o fuddiannau'r bwrdd, y mae modd ei gweld yma.

Mae'r holl drafodion parti perthynol wedi'u nodi ac mae modd eu gweld yn Nodyn 15 y ddogfen hon, ar dudalen 98.

## Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Cyfrifyddu

Y Prif Weithredwr, Philip Blaker, yw Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb personol am:

- stiwardiaeth briodol yr arian cyhoeddus
- gweithrediadau a rheolaeth Cymwysterau Cymru o ddydd i ddydd
- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol sawl atebolrwydd uniongyrchol i'r bwrdd, ac ef sy'n gweithredu fel Prif Swyddog ar gyfer achosion ombwdsmon. Mae modd gweld mwy o fanylion am yr agweddau hyn ar y rôl yn Nogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru, sydd i'w weld ar ein gwefan.

Mae tîm **Gweithredol** Cymwysterau Cymru yn cynnwys:


Philip Blaker, Prif Weithredwr


Alison Standfast, Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Corfforaethol


Jo Richards, Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio

Mae'r **Bwrdd Rheoli**, sy'n cynnwys y Cyfarwyddwyr Polisi a Diwygio Cymwysterau, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid, yn cefnogi'r Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol ehangach wrth arfer eu cyfrifoldebau.

Y **Bwrdd Rheoli** yw'r prif grŵp sydd â chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer y sefydliad, ac maent yn rhoi cyfarwyddyd ar weithgarwch gweithredol a materion corfforaethol. Rôl a phwrpas y Bwrdd Rheoli yw:

- bod yn brif grŵp gwneud penderfyniadau ar gyfer materion a ddirprwyir gan y bwrdd, gan ganolbwyntio ar faterion gweithredol
- sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi perthnasol y sector cyhoeddus
- sefydlu pob grŵp gweithredol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, gan ddirprwyo cyfrifoldebau iddynt fel sy'n briodol
- lle y bo'n briodol, gwneud argymhellion i'r bwrdd ar faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd
- cynnig strategaeth a pholisïau perthnasol i'r bwrdd
- cymeradwyo strategaethau a pholisïau lle nad ydynt wedi'u cadw gan y bwrdd

- rheoli risg gorfforaethol o fewn parodrwydd y bwrdd i dderbyn risg
- cyflawni'r blaenoriaethau gweithredol
- rheoli adnoddau corfforaethol
- cydlynu gweithgarwch ar draws y sefydliad

## 3.2 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 32 a 33 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, wedi cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan ddefnyddio'r ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, a rhaid iddyn nhw roi darlun cywir a theg o sefyllfa Cymwysterau Cymru a'i alldro adnoddau net, y defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel sy'n cael eu nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i weithredu

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi fy nynodi i, yn Brif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Cymwysterau Cymru, ac fe'u nodir ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, y Ddogfen Fframwaith a *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Wrth gynhyrchu'r cyfrifon hyn, rwyf wedi ystyried sylwadau a sicrwydd gan Fwrdd Rheoli Cymwysterau Cymru, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, archwilwyr mewnol ac aelodau o'r tîm staff ehangach.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru, rwy'n cadarnhau:

- bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol
- cymeraf gyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol

- hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni
- rwyf wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

| | |
|---|---|
| **Llofnod**<br><br>*Philip Blaker* | **Philip Blaker**<br>Swyddog Cyfrifyddu<br>21 Medi 2023 |

## 3.3 Datganiad Llywodraethu

### Cyflwyniad a chwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi disgrifiad o strwythur llywodraethu corfforaethol Cymwysterau Cymru, ynghyd â throsolwg o'r trefniadau rheoli risg a disgrifiad o'r prif risgiau sy’n wynebu'r sefydliad.

A minnau’n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Cymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod.

Nodir fy nynodiad yn Swyddog Cyfrifyddu yn y llythyr dynodi a anfonwyd ar ran y Prif Swyddog Cyfrifyddu gan Lywodraeth Cymru. Nodir fy nghyfrifoldebau llawn yn Swyddog Cyfrifyddu yn Nogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru.

### Llywodraethu corfforaethol

Llywodraethu corfforaethol yw'r system lle caiff gwaith y sefydliad ei gyfarwyddo a'i reoli. Mae llywodraethu'n ymwneud â 'sut' y gwneir busnes, a'r ffordd y gwneir penderfyniadau, gyda’r ddau cyn bwysiced a’i gilydd. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal i gefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac am adolygu effeithiolrwydd y system yn rheolaidd.

Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad. Mae ganddo rôl allweddol o ran sicrhau bod gan y sefydliad strwythur llywodraethu cadarn a phriodol ar waith sy'n caniatáu i'r bwrdd graffu ar berfformiad y tîm Gweithredol, ac felly'r modd y mae'r sefydliad yn cyflawni ei brif nodau a'i gynllun busnes.

Mae'r bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, y Prif Weithredwr, a rhwng wyth a deng aelod arall, y penodir pob un ohonynt (ac eithrio'r Prif Weithredwr) gan Weinidogion Cymru.

### Fframwaith llywodraethu

Rydyn ni’n defnyddio *Corporate Governance in Central Government Departments* (2017) fel ein prif bwynt cyfeirio ar gyfer arfer da ym maes llywodraethu. A minnau’n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi adolygu'r Cod ac wedi rhoi trosolwg, o fewn y datganiad llywodraethu, o sut rwy'n credu ein bod yn cydymffurfio â'r cod hwn.

### Trosolwg o fframwaith llywodraethu Cymwysterau Cymru

Mae'r bwrdd a'i bedwar pwyllgor wedi gweithredu ers sefydlu Cymwysterau Cymru.

Mae gan y pwyllgorau rolau allweddol mewn perthynas â'r system lywodraethu a sicrwydd, craffu, trafodaethau datblygu, asesu risgiau cyfredol a monitro perfformiad. Caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan aelod o'r bwrdd, gydag aelodau perthnasol o'r tîm Gweithredol yn mynychu, a chant eu gwasanaethu gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol. Mae pob pwyllgor yn adrodd yn uniongyrchol i'r bwrdd, gyda phob cofnod ar gael i holl aelodau'r bwrdd. Isod ceir trosolwg o weithgarwch y bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod y flwyddyn.

### Bwrdd Cymwysterau Cymru

Bu chwe chyfarfod rheolaidd o'r bwrdd yn ystod y cyfnod (Mai, Gorffennaf, Medi, Tachwedd, Ionawr a Mawrth). Caiff cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru wedi iddynt gael eu cymeradwyo. Cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio a dwy sesiwn datblygu'r bwrdd ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

Roedd y penderfyniadau allweddol a wnaeth y bwrdd yn ystod y cyfnod yn cynnwys y canlynol:

- cymeradwyo Cynllun Busnes 2023-24, dyrannu cyllidebau a lefelau adnoddau staffio
- cymeradwyo Blaenoriaethau Strategol y sefydliad ar gyfer y cyfnod 2022 – 2027
- cymeradwyo cyhoeddi Cynllun Gwrth-Hiliaeth y sefydliad
- cymeradwyo cynnydd o ddau ddeg tri yn nifer y staff parhaol;
- cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022
- cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022
- cymeradwyo penderfyniadau'r sefydliad mewn perthynas â'r diwygiadau arfaethedig i TGAU Saesneg, TGAU Cymraeg, TGAU Y Gwyddorau a TGAU Mathemateg a Rhifedd, yn dilyn y broses ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
- cytuno i ymgynghori ar y cynigion ar gyfer cymwysterau a fydd yn sefyll ochr yn ochr â TGAU i ffurfio'r Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16
- cytuno ar gyfranogiad parhaus y bwrdd yn y prosiect 'Llwybr i'r Bwrdd'.
- adolygu a chymeradwyo datganiad archwaeth risg y bwrdd
- cytuno i fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cyfres arholiadau Gaeaf 2022/23 a Haf 2023, fel ffordd o liniaru amser dysgu ac addysgu a gollwyd

Yn rhai o'i gyfarfodydd (lle bo'n briodol), bu'r bwrdd hefyd yn derbyn neu'n ystyried:

- diweddariadau gan y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd
- y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*
- diweddariadau ar drefniadau dyfarnu cymwysterau yn 2022 ac adroddiadau rheoli risg a chofrestri risg 2023
- monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol a gweithgarwch ariannol
- diweddariadau gan bob un o'i bwyllgorau
- adroddiad ar ganlyniadau arolwg staff blynyddol;
- canlyniadau Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad

Caiff unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau a wneir y tu allan i bwyllgor eu cofnodi ym mhapurau'r bwrdd a'r cofnodion perthnasol.

Cynhaliodd y bwrdd ddiwrnod datblygu ym mis Ionawr 2023, a oedd yn cynnwys siaradwyr allanol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Roedd y sesiwn yn gyfle i'r bwrdd fyfyrio ar gynnydd y sefydliad yn erbyn ei amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gwirfoddol, ar argaeledd a darpariaeth cymwysterau Cymraeg ac ar strategaethau digidol a chyfathrebu'r sefydliad. Roedd hefyd yn galluogi'r bwrdd i gyfrannu

at ddatblygiad meddwl strategol hirdymor y sefydliad, ac yn enwedig esblygiad TGAU yn y dyfodol.

Cafodd aelodau o dîm noddi Llywodraeth Cymru gyfle i arsylwi ar gyfarfodydd y bwrdd.

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy adolygu ehangder a dibynadwyedd sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli, uniondeb datganiadau ariannol a'r cyfrifon blynyddol. Mater i'r bwrdd yw diffinio a chyfleu parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg.

Y bwrdd sy'n atebol am reoli risg a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r meysydd hyn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae modd gweld cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ein gwefan.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn y cyfnod (Mai, Gorffennaf, Tachwedd a Mawrth), a derbyniodd y bwrdd adroddiadau rheolaidd a oedd yn tynnu sylw at y materion pwysig a ddeilliodd o drafodaethau'r Pwyllgor a'r dyfarniadau materol a gyrhaeddwyd. Mae archwilwyr mewnol ac allanol hefyd yn mynychu'r pwyllgor hwn.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r pwyllgor wedi:

- adolygu'r cyfrifon blynyddol drafft ar gyfer 2021-22 ac wedi rhoi adroddiad sicrwydd i'r bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu;
- ystyried y trothwy lle adroddir am risgiau i'r bwrdd
- monitro gweithrediad y system ariannol newydd
- adolygu cynnydd yn erbyn ein gweithredoedd i leihau allyriadau carbon
- adolygu'r holl adroddiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod
- goruchwylio'r gwaith o fonitro'r holl argymhellion archwilio mewnol
- derbyn diweddariadau technegol gan swyddogion, archwilwyr mewnol ac allanol
- ystyried llythyrau 'Annwyl Swyddog Cyfrifyddu' Llywodraeth Cymru
- adolygu adroddiadau mewn perthynas â thwyll, llwgrwobrwyo, rhoddion a rheoli lletygarwch
- derbyn adroddiadau rheoli risg, adolygu agweddau perthnasol ar y gofrestr risg gorfforaethol a chynnal astudiaeth fanwl o iechyd a lles staff
- derbyn diweddariadau diogelwch gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn
- derbyn adroddiadau diweddaru ariannol drwy gydol y flwyddyn a chraffu ar y prosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer rheoli a rhagweld cyllidebau
- derbyn adroddiadau ar unrhyw wyriadau oddi wrth y gweithdrefnau caffael
- ystyried ei amserlen o gyfarfodydd yn y dyfodol

Ni chyfeiriwyd unrhyw bryderon i'r bwrdd.

### Pwyllgor Adnoddau

Mae'r pwyllgor hwn yn darparu amgylchedd ar gyfer trafodaeth fanwl ar faterion ariannol a chynllunio busnes, a nifer o feysydd adnoddau dynol. Dirprwywyd yr awdurdod i'r pwyllgor hefyd gymeradwyo polisïau Adnoddau Dynol ar ran y Bwrdd. Mae crynodeb o'i gylch gorchwyl ar gael ar ein gwefan.

Y bwrdd sy'n atebol am strategaeth a pholisïau ariannol y sefydliad; y Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am reoli cyllid o fewn y paramedrau hyn.

Fe wnaeth y Pwyllgor Adnoddau gyfarfod deirgwaith yn ystod y cyfnod (Gorffennaf, Hydref a Mawrth) a chafodd adroddiadau o'r cyfarfodydd hyn eu darparu i'r bwrdd.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgor Adnoddau wedi:

- adolygu adroddiad cynnydd chwarterol 2022-23 ar y cynllun gweithredol a'r sefyllfa ariannol
- adolygu drafft o’r Cynllun Busnes, Cynllun Gweithredol a chyllideb 2023-24;
- adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- cael diweddariadau Adnoddau Dynol yn cwmpasu adnoddau, dysgu a datblygu, ystadegau absenoldeb, a lles
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r system gyllid newydd
- derbyn diweddariadau ar gynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a datblygu ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth

### Pwyllgor Goruchwylio Polisi a Safonau Rheoleiddio

Diben y pwyllgor hwn yw ystyried a darparu argymhellion i'r bwrdd ar faterion sy'n codi o ddull rheoleiddio Cymwysterau Cymru. Dirprwywyd y pwyllgor gan y bwrdd i gymeradwyo polisïau rheoleiddio. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor ar gael ar ein gwefan.

Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2022-23 (Ebrill, Gorffennaf, Tachwedd, Chwefror) a darparwyd adroddiadau o'r cyfarfodydd hyn i'r bwrdd.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth y Pwyllgor Goruchwylio Polisi a Safonau Rheoleiddio:

- ystyried y dull arfaethedig o ddarparu mesurau lliniaru i ddysgwyr sy’n cwblhau cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a’r Dystysgrif Her Sgiliau yn ystod gaeaf 2022/23 a haf 2023.
- ystyried yr amodau, y gofynion a’r canllawiau arfaethedig a fyddai'n sail i ymgynghoriad ar hyrwyddo cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- ystyried yr amodau arfaethedig ar gyfer sicrhau'r TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a’r cynnig cymwysterau 14-16 cysylltiedig
- ystyried y dull arfaethedig o adolygu agweddau ar y Fframwaith Rheoleiddio
- cymeradwyo’r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a’r Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig diwygiedig
- adolygu ei Gylch Gorchwyl ac argymell y dylid newid enw’r Pwyllgor i Pwyllgor Goruchwylio Polisi a Safonau Rheoleiddio, a hynny er mwyn adlewyrchu rôl a chylch gwaith y Pwyllgor yn well
- derbyn adroddiadau rheoli risg rheoleiddiol rheolaidd
- derbyn diweddariadau rheolaidd ar faterion monitro a chydymffurfio parhaus
- monitro'r sefyllfa mewn perthynas â chorff dyfarnu sy'n profi anhawster ariannol difrifol, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi wrth iddynt symud i gymwysterau cyfatebol

- derbyn diweddariadau ar gyfres arholiadau Tachwedd 2022, Ionawr 2023, a chyfres arholiadau haf 2023
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o safonau mathemateg Safon Uwch
- derbyn crynodeb o ganfyddiadau ymarfer Datganiad Cydymffurfiaeth 2021

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Diben y pwyllgor hwn yw ystyried a darparu argymhellion ar dâl cydnabyddiaeth staff ac aelodau'r bwrdd. Dirprwywyd y pwyllgor gan y Bwrdd i gymeradwyo'r Polisi Tâl. Rhaid i Weinidogion Cymru gytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol i delerau ac amodau. Mae crynodeb o gylch gorchwyl y pwyllgor ar gael ar ein gwefan.

Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2022-23 (Gorffennaf, Medi, Tachwedd, Mawrth), pan ystyriodd y dyfarniad cyflog gweithredol.

### Adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd yn Hydref 2022 gan Bartneriaeth Halpin, a chafodd cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiadau ei ystyried a'i gymeradwyo gan y bwrdd ym mis Ionawr 2023.

Yn ystod 2022-23 cynhaliodd y Cadeirydd gyfarfodydd rheolaidd â phob aelod o'r bwrdd yn unigol er mwyn cynnal adolygiadau perfformiad ac i wrando ar adborth. Casglodd y Cadeirydd yr adborth hwn mewn adroddiad gydag awgrymiadau o welliannau i'r ffordd y mae cyfarfodydd y bwrdd yn cael eu trefnu a'r cymorth a gaiff eu rhoi i aelodau'r Bwrdd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dylai cyfarfodydd bwrdd fod wyneb yn wyneb, ac y gellid cwblhau cyfarfodydd pwyllgor yn effeithiol ar Microsoft Teams
- bod adroddiadau ar brydiau'n rhy hir i ddibenion y bwrdd a gellid gwella'r fformat PDF trwy gyflwyno porth bwrdd
- dylid adolygu ffurflenni hunanasesu ar gyfer adolygiadau bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu themâu cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg.
- bod y bwrdd yn derbyn diweddariadau cysylltiadau cyhoeddus/cyfathrebu rheolaidd a chopïau o adroddiadau monitro gwleidyddol wythnosol
- yr argymhelliad y dylai'r Pwyllgor Rheoleiddio ddychwelyd at drefnu cyfarfodydd rheolaidd[2] ac i'r sefydliad ystyried cyfleoedd i wella amrywiaeth aelodaeth y bwrdd

Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, cymerodd aelodau'r bwrdd ran mewn gweithdy Cyfathrebu ac Ymgysylltu a oedd yn eu galluogi i gyfrannu at ddatblygiad ein strategaethau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Sianeli Digidol ac roeddent yn derbyn copïau o adroddiadau gwasg wythnosol. Ar gyfer rhai eitemau rheolaidd, cyflwynwyd dangosfwrdd adroddiadau i gymryd lle'r diweddariadau ysgrifenedig hirach. Ailgyflwynwyd cyfarfodydd bwrdd wyneb yn wyneb, gyda chyfarfodydd pwyllgor yn parhau i gael eu cynnal ar-lein ar Microsoft Teams, a threfnwyd amserlen reolaidd ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi a Goruchwylio Safonau. Bydd

[2] Yn ystod y pandemig, y Bwrdd oedd yn penderfynu ar faterion rheoleiddiol, ac o ganlyniad roedd y Pwyllgor yn cyfarfod yn llai aml yn ystod y cyfnod hwnnw.

ffurflenni hunanasesu'r bwrdd yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn ystod 2023 ac mae gwaith ar y gweill i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno meddalwedd porth ar gyfer y bwrdd.

**Adolygiad y Cadeirydd** - Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol yn cwrdd yn rheolaidd â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, gan ei ddiweddaru ar agweddau allweddol ar waith Cymwysterau Cymru, a mynychu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i drafod canlyniadau Haf 2022. Cafodd y Cadeirydd hefyd sawl cyfarfod gydag amrywiol randdeiliaid allweddol er mwyn datblygu cysylltiadau cryfach ac i ennyn gwell dealltwriaeth o waith Cymwysterau Cymru. Arweiniwyd yr adolygiad o berfformiad y Cadeirydd ar gyfer 2022/23 gan ddau aelod o'r bwrdd, gan dynnu ar adborth gan holl aelodau'r bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, a chynhaliodd y Gweinidog ei adolygiad blynyddol o berfformiad y Cadeirydd.

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023)

| Aelod o'r Bwrdd | Bwrdd | Pwyllgor Archwilio | Pwyllgor Rheoleiddio | Pwyllgor Adnoddau | Pwyllgor Tâl |
|---|---|---|---|---|---|
| David B Jones OBE (Cadeirydd) | 6/6 | 1/1[3] | 4/4 | 3/3 | 4/4 |
| Philip Blaker (Prif Weithredwr) | 6/6 | 4/4 | 4/4 | 3/3 | amh |
| Douglas Blackstock | 6/6 | 4/4 | 2/4 | amh | amh |
| Julie Brannan | 6/6 | amh | 4/4 | amh | amh |
| Hannah Rowan | 5/6 | amh | amh | 3/3 | amh |
| Anne Marie Duffy OBE | 5/6 | amh | 3/4 | amh | 4/4 |
| Michael Griffiths | 5/6 | amh | amh | 3/3 | 4/4 |
| Graham Hudson | 5/6 | amh | 4/4 | 3/3 | amh |
| David W Jones | 4/6 | 3/4 | amh | amh | amh |
| Yr Athro John Latham CBE | 5/6 | 3/4 | amh | amh | amh |
| Sharron Lusher MBE[4] | 2/2[5] | amh | amh | 1/1[6] | amh |
| Jayne Woods | 6/6 | 4/4 | amh | amh | 4/4 |

Ym mis Medi 2022, gwahoddwyd Ravi Pawar i ymuno â'r Bwrdd gan y Cadeirydd fel cynghorydd arbennig a mynychodd dri allan o bedwar cyfarfod Bwrdd posibl yn ystod y cyfnod.

[3] Gwahoddwyd Cadeirydd y Bwrdd i fynychu cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Tachwedd 2022.
[4] Gadawodd Sharron Lusher y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022 ar ôl cael ei phenodi'n Gadeirydd panel Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol Llywodraeth Cymru.
[5] Cafodd Sharron Lusher gyfle i fynychu cyfanswm o ddau gyfarfod bwrdd yn ystod 2022/23.
[6] Gadawodd Sharron Lusher y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2022 a chafodd gyfle i fynychu un cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau yn ystod 2022/23.

O ganlyniad i'r risg o ran iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r pandemig, cynhaliwyd cyfarfodydd bwrdd, pwyllgorau a chyfarfodydd rheolwyr yn rhithiol yn 2020/21 a symudon ni at system o bapurau electronig. Yn ystod 2022/23 parhaodd y sefydliad i ddarparu papurau electronig a chynnal ei gyfarfodydd pwyllgor yn rhithiol er mwyn manteisio ar fuddion gweithio ystwyth. Er y cynhaliwyd cyfarfodydd bwrdd yn hybrid i ddechrau, ailgyflwynwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb ym mis Tachwedd 2022.

### Y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd ein system rheolaeth fewnol i gadw risg o fewn lefel resymol yn hytrach nac i ddileu pob risg; o ganlyniad, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei gynnig, ni all roi sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi ac i flaenoriaethu'r risgiau sy’n peryglu cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Bu’r system rheolaeth fewnol ar waith ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Wrth wneud hynny, caf fy hysbysu gan waith yr archwilwyr mewnol, Archwilio Cymru a Chyfarwyddwyr y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol.

### Archwiliad Mewnol

Rydyn ni’n trefnu ein gwasanaethau archwilio mewnol drwy gontract allanol ac wedi penodi TIAA, drwy dendr cystadleuol, yn archwilwyr mewnol i ni.

Yn ystod 2022-23, mae saith archwiliad mewnol wedi'u cwblhau ynghyd ag Adolygiad Dilynol blynyddol sy'n sefydlu'r camau rheoli a gymerwyd mewn perthynas â'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau archwilio mewnol.

Roedd yr Archwiliadau ar gyfer 2022-23 fel a ganlyn:

| Enw'r archwiliad | Sgôr sicrwydd | Nifer yr argymhellion |
|---|---|---|
| TGCh – Rheoli Data | Sylweddol | 0 |
| Rheoli Risg – Fframwaith Sicrwydd | Sylweddol | 5 |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol (Rheoli Cyllidebol, Arian Parod a Rheoli Banc a Trysorlys) | Sylweddol | 0 |
| Ffyrdd Newydd o Weithio | Sylweddol | 3 |
| TGCh – Adolygiad System AD ar ôl ei Gweithredu | Sylweddol | 0 |
| AD – Datblygu Perfformiad Staff | Rhesymol | 3 |
| Llywodraethu – Cynllunio Strategol | Sylweddol | 0 |

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi goruchwylio'r Cynllun Archwilio Mewnol a'r adroddiadau archwilio a bydd yn parhau i fonitro'r broses o weithredu argymhellion a godwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r argymhellion a godwyd:

| Argymhellion a godwyd | Blaenoriaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Brys | Pwysig | Rheolaidd | Cyfanswm |
| Argymhellion a godwyd yn 2017-18 | 0 | 3 | 13 | 16 |
| Argymhellion a godwyd yn 2018-19 | 0 | 4 | 18 | 22 |
| Argymhellion a godwyd yn 2019-20 | 5 | 1 | 19 | 25 |
| Argymhellion a godwyd yn 2020-21 | 0 | 2 | 5 | 7 |
| Argymhellion a godwyd yn 2021-22 | 0 | 3 | 8 | 11 |
| Argymhellion a godwyd yn 2022-23 | 0 | 2 | 9 | 11 |
| **Cyfanswm** | 5 | 15 | 72 | 92 |

Defnyddir system fonitro ac olrhain i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adolygodd TIAA, ein harchwilwyr mewnol, yr argymhellion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg ar statws argymhellion ar ddiwedd y flwyddyn gyfrifo:

| Blaenoriaeth | Argymhellion | | | Statws | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dygwyd ymlaen o 2021-22 | Codwyd yn 2022-23 | Cyfanswm | Gweithredwyd yn 2022/23 | Hwyr | Heb fod yn ofynnol eto | Heb ei gweithredu | Wedi'i chario ymlaen |
| Brys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pwysig | 1 | 2 | 3 | 1 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| Rheolaidd | 0 | 9 | 9 | 6 | 0 | 3 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 1 | 11 | 12 | 7 | 0 | 5 | 0 | 5 |

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 5 argymhelliad Archwilio Mewnol yn parhau i fod yn hwyr, a hynny oherwydd oedi yn y rhaglen archwilio a arweiniodd at adroddiadau yn cael eu derbyn yn hwyr yn ystod Ch4 2022/23 ac yn gynnar yn ystod Ch1 2023/24.

Mae dau o'r pum argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud ag adroddiad Archwilio Mewnol Ffyrdd Newydd o Weithio a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023 ac a ystyriwyd gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Mawrth 2023. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn awgrymu ein bod yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Polisi Hybrid a Gweithio Gartref erbyn 31 Mai 2023, ac mae gwaith ar y gweill i orffen cyn y dyddiad cau hwn. Yr ail argymhelliad oedd adolygu a diweddaru’r Polisi Oriau Gwaith unwaith y bydd adolygiad o'r Polisi Hybrid a Gweithio Gartref wedi darfod. Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yma yw 31 Mai, a rhagwelir y byddwn yn cadw at y dyddiad cau y cytunwyd arno. Rhoddodd

sgôr sicrwydd sylweddol gan yr archwiliad, ac mae'r ddau argymhelliad sy'n weddill yn flaenoriaethau arferol.

Mae'r tri argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â'r adroddiad Archwilio Mewnol Perfformiad a Datblygiad Staff a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn awgrymu y dylai dyddiadau cwblhau ac adolygu'r AEA gael eu cofnodi ar fwrdd rheoli fersiwn y Polisi Perfformiad a Datblygu. Bydd dyddiad adolygu yn cael ei gadarnhau, a bydd yr AEA yn cael ei gwblhau fel rhan o'r amserlen o waith polisi. Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yma yw Rhagfyr 2023, a rhagwelir y byddwn yn cadw at y dyddiad cau y cytunwyd arno. Awgrymodd yr ail argymhelliad y dylai'r Uwch Grŵp Arwain (SLG) ddatblygu modd o fonitro cydymffurfiaeth â'r Polisi Perfformiad a Datblygu, ac rydym yn bwriadu trefnu chwe gwiriad misol gydag aelodau SLG er mwyn sicrhau bod Penaethiaid Timau yn goruchwylio'r broses. Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yma yw 31 Hydref 2023, a rhagwelir y byddwn yn cadw at y dyddiad cau y cytunwyd arno. Roedd yr argymhelliad olaf yn awgrymu y dylid sefydlu trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cytuno yn brydlon, yn enwedig pan fo swydd wag neu staff yn symud i swydd newydd neu'n dod yn Reolwr Llinell, a byddwn yn rhoi eglurhad o'r disgwyliad hwn i reolwyr llinell a staff. Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yma yw 1 Medi 2023, a rhagwelir y byddwn yn cadw at y dyddiad cau y cytunwyd arno. Rhoddodd yr archwiliad sgôr sicrwydd rhesymol. Mae argymhelliad 1 yn flaenoriaeth arferol, tra bod argymhellion 2 a 3 yn cael eu hystyried yn rhai o bwys.

Caiff holl argymhellion yr archwiliad mewnol eu tracio a'u hadrodd ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Diben barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r bwrdd, sy'n sail i asesiad y bwrdd ei hun o effeithiolrwydd y system ar reolaeth fewnol. Darperir yr adroddiad isod gan ein Pennaeth Archwilio Mewnol o TIAA.

### Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

**BARN FLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL**

Mae TIAA yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Cymwysterau Cymru brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith. Mae'r farn hon wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n farn am bob elfen o'r prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu na'r hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i gyflawni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru eu cael o'i wahanol ffynonellau sicrwydd.

### Crynodeb Archwilio

**Gwendidau rheoli:** Nid oedd unrhyw feysydd a adolygwyd gan yr archwiliad mewnol lle yr aseswyd bod effeithiolrwydd rhai o'r trefniadau rheolaeth fewnol yn rhoi 'ychydig iawn o sicrwydd' neu 'dim sicrwydd'.

**Argymhellion a Wnaed:** Rydym wedi dadansoddi ein canfyddiadau/argymhellion yn ôl maes risg, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi isod (gyda chymaryddion y llynedd mewn cromfachau).

| Maes Risg | Brys | Pwysig | Rheolaidd |
|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyd** | | | |
| **Fframwaith Llywodraethu** | 0(0) | 0(1) | 7(6) |
| **Lliniaru Risg** | 0(0) | 0(0) | 0(0) |
| **Cydymffurfio** | 0(0) | 0(2) | 2(1) |
| **Cyflenwi** | | | |
| **Monitro Perfformiad** | 0(0) | 1(0) | 0(0) |
| **Cynaliadwyedd** | 0(0) | 0(0) | 0(0) |
| **Cydnerthedd** | 0(0) | 0(0) | 1(1) |

**Cyfleoedd Effeithiolrwydd Gweithredol:** Un o rolau archwilio mewnol yw ychwanegu gwerth, ac yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaethom roi cyngor ar gyfleoedd i wella effeithiolrwydd gweithredol y meysydd a adolygwyd ac mae nifer y cyfleoedd hyn wedi'u crynhoi isod.

| Gweithredol |
|---|
| **9(4)** |

**Dilynol:** Mae argymhellion y flwyddyn flaenorol wedi bod yn destun gwaith dilynol fel rhan o'n cynllun archwilio. Roedd holl argymhellion 2021/22 yn destun gwaith dilynol gan Archwilio Mewnol a chafodd yr holl argymhellion y cytunwyd arnynt eu gweithredu.

### Annibyniaeth a Gwrthrychedd Archwilio Mewnol

Ni chyfyngwyd o gwbl ar y gwasanaeth archwilio mewnol mewn modd a oedd yn amharu ar annibyniaeth neu wrthrychedd y gwasanaeth a ddarperir.

TIAA – 15 Mai 2023

## Fframwaith rheoli risg

Mae gan y bwrdd atebolrwydd cyffredinol ar gyfer rheoli risg y sefydliad ac mae risg yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys yr holl risgiau ar y gofrestr risg strategol sydd â sgôr risg gweddilliol o 12 neu uwch. Cefnogir y bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARAC), sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd ar ddull y sefydliad o reoli risg a bodloni ei hun ar y ffordd y rheolir risg o fewn y sefydliad. Mae rheoli risg hefyd ymhlith eitemau sefydlog agenda ARAC yn rhan o'i fusnes craidd.

Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y bwrdd ei ddatganiad archwaeth risg yn ffurfiol yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ei Gweithdy Risg Blynyddol, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2023. Mae parodrwydd y bwrdd i dderbyn risg yn adlewyrchiad o wahanol agweddau ar y sefydliad, a chaiff ei ddatgan er mwyn darparu fframwaith i arwain y Bwrdd Gweithredol a gweithwyr o ran sut y dylent ddatblygu opsiynau, ystyried lliniaru risg neu wneud penderfyniadau dirprwyedig. Nid yw'n golygu unrhyw gyfaddawdu o ran gwneud penderfyniadau yn gywir, trwy’r llywodraethiant priodol a chan roi ystyriaeth lawn i'r opsiynau a'r asesiadau effaith neu'r risgiau dan sylw, ac nid yw ychwaith yn awgrymu unrhyw ragdybiaeth ynghylch y penderfyniadau a wneir. O ystyried natur ein gwaith, yn gyffredinol, mae parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg yn isel, ond mae'n derbyn bod angen goddef a rheoli rhywfaint o risg mewn meysydd penodol. Gan gynnwys:

- parodrwydd i dderbyn risg yn y defnydd o dechnoleg ddigidol i wella neu ddatblygu prosesau asesu neu ddyfarnu fel rhan o waith diwygio cymwysterau
- parodrwydd cymedrol i dderbyn risg o ran adnoddau, perthnasoedd / canfyddiad y cyhoedd a gweithrediad y farchnad gymwysterau yn ei chyfanrwydd

Mae'r tîm Gweithredol, drwy'r Bwrdd Rheoli a'i strwythurau llywodraethu sylfaenol, yn gyfrifol am gynnal y cofrestrau risg a'r cofrestrau risg tîm/prosiect ategol. Cyflwynwyd adroddiadau risg a chofrestrau i gyfarfodydd y byrddau hyn ar gyfer trafodaeth, adolygu a/neu wybodaeth.

Mae pwyllgorau'r bwrdd wrthi'n trafod risg ac yn adolygu cofrestri risg perthnasol fel a ganlyn:

- Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r risgiau corfforaethol a’r risgiau cyfathrebu
- Mae’r Pwyllgor Goruchwylio Polisi a Safonau Rheoleiddio yn adolygu'r risgiau rheoleiddio a diwygio

Rôl y pwyllgorau yw darparu cefnogaeth a her i'r tîm Gweithredol. Mae gan bwyllgorau rôl hefyd i roi sicrwydd i'r bwrdd fod risg yn cael ei hystyried yn weithredol mewn trafodaethau pwyllgor a'i rheoli'n briodol.

## Y Gofrestr Risg

Yn ystod 2022-23 diweddarwyd y Gofrestr Risg Strategol yn barhaus er mwyn nodi risgiau newydd wrth iddynt gael eu hadnabod. Ar y cyfan, gostyngodd y proffil risg yn ystod 2022/23, wrth i effaith y pandemig barhau i leihau. Gellir gweld adolygiad llawn o'n prif risgiau strategol ar dudalen 20.

Caiff yr holl risgiau eu hystyried yn rheolaidd a'u hadolygu yn unol â pharodrwydd presennol y bwrdd i dderbyn risg. Caiff yr holl risgiau sydd â sgôr gweddilliol o 12 neu uwch eu hadrodd i'r Bwrdd fel mater o drefn ac yn ystod 2022/23 cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg adolygiad o'r trothwy ar gyfer adrodd ar risg. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, penderfynodd y bwrdd gadw’r trothwy adrodd presennol o 12, gan nodi eu bod o’r farn ei fod yn parhau i ddarparu lefel briodol o oruchwyliaeth strategol. Ar 31 Mawrth 2023 roedd 45 o risgiau strategol wedi'u nodi ar y gofrestr: 17 o risgiau diwygio; 9 o risgiau rheoleiddio; 16 o risgiau corfforaethol; a 3 risgiau cyfathrebu. O'r 45 risg strategol a nodir yn y gofrestr, roedd gan 18 sgôr risg gweddilliol o 12 ac uwch.

### Caffael a gwyro oddi wrth weithdrefnau caffael

Mae ein Polisi Caffael cyhoeddedig yn alinio â Datganiad Polisi Caffael Cymru, ac felly rydyn ni’n hysbysebu cyfleoedd dros £30k (gan gynnwys TAW) yn agored ar GwerthwchiGymru ac yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod ein cyfleoedd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) dendro'n llwyddiannus.

Caiff ein Polisi Caffael ei gyflawni drwy ein Strategaeth Gaffael a'i gefnogi gan weithdrefnau tendro a dyfynbrisio, a chaiff pob aelod newydd o staff hyfforddiant yn hyn fel rhan o’u cyfnod ymsefydlu.

Mae ein gweithdrefnau'n ei gwneud yn ofynnol (oni bai ein bod yn defnyddio contractau presennol neu gytundebau fframwaith cydweithredol fel y rhai a osodir gan Dîm Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru i ni):

- gael tri dyfynbris ar gyfer nwyddau a gwasanaethau rhwng £6,000 a £29,999
- cyhoeddi gwahoddiad i dendro am nwyddau a gwasanaethau dros £30,000 ac islaw trothwy'r GPA ar GwerthwchiGymru
- cyhoeddi hysbysiad ar 'Canfod Tendr' ar gyfer tendrau dros drothwy'r GPA

Mae proses ymadael ar waith i ganiatáu rheoli unrhyw wyriad o'r gweithdrefnau caffael hyn yn effeithiol. Gan amlaf, dim ond ar ôl ceisio tendrau/dyfynbrisiau cystadleuol y prynir nwyddau a gwasanaethau, yn dilyn cyngor gan y Tîm Caffael. Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd hyn yn bosibl. Pan fydd hyn yn digwydd, rhaid cael cymeradwyaeth y Prif Weithredwr.

Er mwyn darparu cyfiawnhad priodol, caiff y templed 'Cais am gymeradwyaeth i wyro oddi wrth weithdrefnau caffael' ei gwblhau. Caiff y cais ei gofnodi ar y gofrestr dyfynbris/tendr.

Bydd y Pennaeth Caffael yn adolygu'r cais, ac os gellir ei gyfiawnhau bydd yn ei anfon at y Prif Weithredwr i'w gymeradwyo. Ar gyfer pob contract, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ymadawiad, pan fo'r gwerth yn uwch na'r trothwy ar gyfer Cytundeb Caffael Llywodraeth Sefydliad Masnach y Byd, rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Bwrdd cyn dechrau gweithgarwch caffael.

Adroddir ar unrhyw wyriadau i'r Bwrdd Rheoli mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cymeradwywyd un ymadawiad, gyda gwerth cyfunol o £37,200. Roedd hyn yn ymwneud â'r diwrnodau datblygu ychwanegol ar gyfer ein contract cymorth QiW a oedd yn rhagori ar werth gwreiddiol y contract.

### Llywodraethu gwybodaeth

Mae gennym Bolisi Diogelwch Gwybodaeth sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r holl gyflogeion mewn perthynas â Thechnoleg Gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth. Cefnogir y polisi gan nifer o ddogfennau cyfarwyddyd, gan gynnwys Canllawiau Dosbarthu Gwybodaeth a Thrin Gwybodaeth.

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol yw'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO), ac mae'n atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth a data. Mae'r Pennaeth TG yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal a gweithredu polisïau IT perthnasol, tra bod y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am bolisïau rheoli data a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yw'r Swyddog Diogelu Data, ac mae'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd rydyn ni'n gwneud busnes. Mae ein Cynllun Cyhoeddiadau yn ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol benodol ar gael fel mater o drefn i'r cyhoedd ac mae ar gael ar ein gwefan.

Rydyn ni wedi sefydlu datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Gwybodaeth, gan gategoreiddio data i'r meysydd canlynol, gan nodi sgôr risg, nodi ein parodrwydd i dderbyn risg a gosod camau rheoli cysylltiedig:


- gwybodaeth i'r cyhoedd
- corfforaethol mewnol
- gwybodaeth bersonol sensitif am staff a thrydydd partïon
- QiW (ein cronfa ddata reoleiddio)
- cyfryngau cymdeithasol

Mae'r Pennaeth TG yn gyfrifol am adolygu ein datganiad parodrwydd i dderbyn risg yn rheolaidd a chynnig diweddariadau i'r Bwrdd Rheoli.

### Seiberddiogelwch

Yn y flwyddyn ariannol hon, ni chafwyd unrhyw achosion o dorri data na cholli data. Fe wnaethom adnewyddu ein hachrediad Cyber Essentials Plus ym mis Mai 2022 ac ym mis Mai 2023 derbyniom ein tystysgrif Cyber Essentials newydd (gyda'r broses yn mynd rhagddo i gwblhau Essentials Plus).

Mae'r siart isod yn crynhoi'r ymosodiadau aflwyddiannus a gafwyd dros y flwyddyn.





Ymdrechion i beryglu cyfrifon defnyddwyr trwy geisio mewngofnodi heb awdurdod (dyfalu cyfrineiriau) yw'r math mwyaf cyffredin o ymosodiad erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r risg gyffredinol o beryglu cyfrifon yn parhau'n isel oherwydd yr amddiffyniad ychwanegol a ddarperir gan ddilysu aml-ffactor. Negeseuon e-bost gwe-rwydo sy'n parhau i achosi'r risg seiber fwyaf arwyddocaol. Ein hidlwyr e-bost â'u diogelwch bygythiad uwch yw'r amddiffyniad cyntaf yn erbyn gwe-rwydo. Rydyn ni hefyd yn cydnabod y rôl bwysig y mae ein staff yn ei chwarae o ran lliniaru'r risg o we-rwydo ymhellach.

Mae'r gweithgareddau eraill a wnaethom yn ystod y flwyddyn i wrthsefyll y bygythiad seiber yn cynnwys:

- Monitro newidiadau i'r dirwedd fygythiadau
- cynnal efelychiadau gwe-rwydo misol ar ein staff er mwyn profi eu hymatebion a'u rhybuddio am beryglon gwe-rwydo
- mynnu bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol parhaus ar ymwybyddiaeth diogelwch gwybodaeth

Dangosir canlyniadau ymosodiadau gwe-rwydo ffug yn y siart isod. Darperir hyfforddiant pellach i staff sy'n cael eu dal yn rheolaidd mewn ymarferion gwe-rwydo.




## Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Cawsom saith o geisiadau am wybodaeth yn ystod y flwyddyn, ac ymatebwyd i bob un ohonynt yn unol â'r amserlenni priodol.

## Cwynion

Cawsom ddwy gŵyn gorfforaethol yn ystod 2022/23. Datryswyd un yn anffurfiol yn ystod cam un o'n proses trin cwynion corfforaethol a chafodd y llall ei thynnu'n ôl.

Cawsom dair ar ddeg o gwynion ynghylch cyrff dyfarnu. O'r rhain, derbyniwyd dwy i'w hymchwilio. Ni chynhaliwyd un gŵyn ac mae'r llall yn parhau. Ni chawsom unrhyw geisiadau o dan y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi yn ystod 2022/23.

## Chwythu'r chwiban

Mae gan Cymwysterau Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban, sy'n rhoi manylion i'n staff am ddiben a phroses y polisi ar gyfer codi unrhyw bryderon. Ni chawsom unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban corfforaethol yn y flwyddyn ariannol hon.

Mae gennym hefyd Weithdrefn Chwythu'r Chwiban Reoleiddiol. Ni chawsom unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban corfforaethol yn y flwyddyn ariannol hon.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn ystod 2022/23, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sydd â dyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ymgynghori ar ei ymestyn i gynnwys wyth corff cyhoeddus datganoledig arall yng Nghymru, gan gynnwys Cymwysterau Cymru, a hynny i ddechrau ym mis Ebrill 2024.

Er na fyddwn yn ddarostyngedig i'r Ddeddf tan fis Ebrill 2024, rydym eisoes wedi ymrwymo i ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Rydym o'r farn bod ein gwaith yn cefnogi diben y Ddeddf a bod ei gofynion yn cyd-fynd â'r ffordd rydym yn gweithio. Yn 2018 fe wnaethom fabwysiadu darpariaethau'r Ddeddf o'n gwirfodd, er mwyn iddynt fod yn sail i'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau a'n hamcanion llesiant cyhoeddedig sydd i'w gweld ar ein gwefan.

Mae ein gwaith yn cefnogi ffyniant economaidd hirdymor yn benodol drwy sicrhau bod cymwysterau'n addas at ddiben, a thrwy ystyried pa mor dda y maent yn diwallu anghenion cyflogwyr a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Mae hyn yn cefnogi dilyniant academaidd a chyflogadwyedd, ac, felly, ffyniant a thwf economaidd. Mae addysg dda yn gwneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd hirdymor, ac mae'n bwysig gallu dangos cyflawniad drwy gymwysterau cadarn ac ystyrlon.

Yn 2022/23 dechreuwyd y gwaith o adolygu ein datganiad a'n hamcanion llesiant, gan ddefnyddio'r '5 ffordd o weithio' er mwyn sicrhau bod ein hamcanion yn bodloni gofynion deddfwriaethol ac yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant. Bydd y gwaith hwn yn dod i ben yn 2023/24, a bydd yn arwain at gyhoeddi amcanion diwygiedig a datganiad llesiant cysylltiedig.

### Safonau'r Gymraeg

Rydyn ni’n cyfathrebu â'n rhanddeiliaid yn ddwyieithog, fel y bo'n briodol. Er nad ydyn ni ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg eto, rydyn ni wedi dewis cyhoeddi ac adrodd ar ein Cynllun Iaith Gymraeg corfforaethol o’n gwirfodd, a gellir ei weld ar ein gwefan. Yn ystod 2022/23 rydym wedi canolbwyntio ar barhau i ymgorffori’r Cynllun trwy'r sefydliad cyfan.

### Hyrwyddo a chefnogi cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Mae ein strategaeth Dewis i Bawb yn nodi ein hymroddiad amlwg i’r Gymraeg a’n nod i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Yn ystod 2022/23, fe wnaethom ddarparu £730k o gyllid grant er mwyn hyrwyddo a chefnogi cymwysterau dwyieithog a rhai cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn cefnogi ein hymrwymiadau 'Dewis i Bawb', rydym wedi bod yn gweithio gyda chyrff dyfarnu a rhanddeiliaid, fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a darparwyr dysgu, er mwyn nodi pa gymwysterau a ddylai gael blaenoriaeth o ran sicrhau argaeledd yn y Gymraeg. Rydym hefyd wedi creu ffurflen i randdeiliaid ar ein platfform 'Dweud eich Dweud' er mwyn iddynt ein hysbysu os oes galw am gymwysterau yn y Gymraeg. Defnyddiwyd gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o’n gwaith i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ein grant Cymorth i’r Gymraeg.

Rydym wedi dyfarnu £120k drwy gyllid grant cystadleuol i gefnogi cyrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi darparu £410k o gyllid grant i CBAC er mwyn cyfrannu at y gost o baratoi cymwysterau dwyieithog.

Fe wnaethom hefyd ddatblygu a chyhoeddi pecyn adnoddau rhyngweithiol, 'Cynnig Cymraeg - y Cynnig Gweithredol', a hynny er mwyn cefnogi cyrff dyfarnu i hyrwyddo cymwysterau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i ddysgwyr yng Nghymru. Cafodd y pecyn ei lansio’n swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2022, ac mae'n rhoi arweiniad i gyrff dyfarnu ar sut y gellir cyflwyno'r Cynnig Cymraeg - Cynnig Gweithredol yn ystod taith dysgwr i ennill cymhwyster. Mae hefyd yn annog cyrff dyfarnu i roi gwybodaeth wedi’i dargedu i ddysgwyr ynghylch cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac i fynd ati’n rhagweithiol i hyrwyddo a hysbysebu cymwysterau Cymraeg neu ddwyieithog drwy dynnu sylw at eu hargaeledd ac i annog dysgwyr a chanolfannau i fanteisio arnyn nhw.

Tua diwedd 2022 buom yn ymgynghori ar gynigion i'w gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac i hwyluso mynediad iddynt. Er mwyn sicrhau bod barn dysgwyr yn cael ei gynrychioli yn yr ymgynghoriad, cafwyd cyfarfodydd â dysgwyr o ysgolion a cholegau addysg bellach er mwyn trafod eu profiadau hwy o gymryd cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac i geisio'u barn ar ein cynigion. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad yn ystod haf 2023.

Wrth i'r nifer o gymwysterau Gwneud-i-Gymru gynyddu, rydym wedi dechrau adolygu ein fframwaith rheoleiddio ac ystyried pa newidiadau sydd angen cael eu gwneud yng nghyd-destun dargyfeirio polisi cymwysterau parhaus. Gwnaethom alw am dystiolaeth, gan wahodd cyrff dyfarnu i roi barn ar ystod o faterion, gan gynnwys holi a ddylid cyflwyno llinell sylfaen o ofynion rheoleiddiol ar gyfer yr holl gymwysterau cymeradwy, ac os felly pa fath o ofynion y dylid eu hystyried. Gallai'r gofynion sylfaenol gynnwys yr hyn y gall ysgolion a cholegau ei ddisgwyl a'r hyn y byddent yn ei dderbyn o ran darparu gwasanaethau a darparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Yn dilyn hynny, sefydlwyd grŵp cyfeirio cyrff dyfarnu er mwyn datblygu ein meddylfryd ymhellach. Byddwn yn ystyried y canfyddiadau cyn penderfynu ar unrhyw newidiadau i'n fframwaith rheoleiddio. Bydd y rhain hefyd yn destun ymgynghoriad pellach yn 2023.

Fe wnaethom sefydlu 12 Grŵp Cymhwyster Sector sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith darparwyr, cyrff dyfarnu a grwpiau sector. Bydd y galw am a'r cyflenwad o gymwysterau cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn fater i'w drafod yn y fforymau hyn.

Y tu hwnt i weithio gyda chyrff dyfarnu, rydym wedi cytuno ar bartneriaeth strategol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd wedi'i seilio ar gynllun gweithredu tair blynedd. Datblygwyd y cynllun gweithredu hwn, sydd wedi'i strwythuro ar draws pedair thema wahanol, er mwyn ein helpu i gyflawni ein nod cyffredin - alinio datblygiad cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a datblygiad cymwysterau dwyieithog addas ar gyfer dysgwyr sy'n astudio'r cyrsiau hynny. Rydym hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

### Y Ddeddf Cydraddoldeb

Rydyn ni'n cydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac rydyn ni wedi cymryd gofal i ystyried materion cydraddoldeb yn ein holl weithgareddau. Mae enghreifftiau o'n dull yn cynnwys ein harferion recriwtio, ein safonau dylunio gwefannau a dyluniad ein swyddfa. Rydyn ni'n partneru'n rheolaidd â sefydliadau eraill i gefnogi a gwreiddio ein polisïau a'n harferion cydraddoldeb. Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i raglen o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol sydd wedi'i chynnwys fel gweithgaredd gweithredol yn ein cynllun gweithredol blynyddol.

Caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio ein polisïau a darparu ein gwasanaethau, ac maen nhw'n cael eu hadolygu'n barhaus.

Yn ystod 2022/23, aethom ati i wella ein dealltwriaeth o farn y rhai â phrofiad ac arbenigedd mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth pan oeddem yn archwilio opsiynau ar gyfer darparu cynnig cymwysterau sy'n gydlynol ac yn gynhwysol i bobl ifanc 14–16 oed yng Nghymru. Cynhaliwyd arolygon, cyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws gydag ystod eang o

gyfranwyr, ac fe wnaethom wella ein dull o ymgysylltu â dysgwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar gysylltu â dysgwyr sy'n cael eu tangynrychioli. Fe wnaethom hefyd ddatblygu fersiynau Pobl Ifanc a Hawdd eu Darllen o'n dogfennau ymgynghori er mwyn gwella hygyrchedd. Roedd ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ein galluogi i fyfyrio ar rinweddau amrywiaeth asesu a sut y gallai hyblygrwydd wrth gyflwyno unedau gefnogi cynhwysiant. Roedd yr adborth hwn yn ganolog i ddyluniad ein hunedau a'n cymwysterau Sgiliau Bywyd a Gwaith arfaethedig.

Gwnaethom gwblhau Asesiadau Effaith Integredig i gefnogi ac i lywio ein penderfyniadau ar ddylunio TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ac ar ffurf y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 yn y dyfodol. Cynhyrchwyd Asesiadau Effaith Integredig hefyd er mwyn llywio penderfyniadau ar faterion rheoleiddiol, megis sicrhau'r cynnig cymhwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru ac ar ddiwygio cymwysterau fel rhan o'n hadolygiadau sector. Crëwyd adnodd canolog i staff hefyd er mwyn helpu i sicrhau bod ein hasesiadau o effaith yn cael eu llywio gan y dystiolaeth a'r gwaith ymchwil diweddaraf a mwyaf perthnasol.

Fel rheoleiddiwr, rydyn ni hefyd yn cefnogi cyrff dyfarnu i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb drwy gyhoeddi ein canllawiau Mynediad Teg drwy Ddylunio. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar sut y gall cynllunio cymwysterau ac asesu da roi'r cyfleoedd tecaf posibl i bob dysgwr ddangos yr hyn maen nhw'n ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Bwriad y ddogfen yw cefnogi ac ategu'r arferion gorau o ddyfarnu sefydliadau wrth gynllunio cymwysterau ac asesu, a darparu canllawiau ar gydymffurfio â gofynion rheoliadol. Mae ein Hamodau Cydnabod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu fod â threfniadau clir ar waith ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â'i gymwysterau, ac rydyn ni'n monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu. Rydyn ni hefyd yn cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Mae ein tîm Cysylltiadau Allanol hefyd yn rhoi arweiniad i swyddogion arholi i'w cefnogi i weithredu trefniadau mynediad.

Yn ystod 2022/23 cyhoeddwyd ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol ar gyfer y cyfnod 2021/22, sy'n tynnu sylw at gynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion cydraddoldeb ac sydd i'w gweld ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi dechrau'r gwaith o adolygu a diwygio ein Hamcanion Cydraddoldeb 2022-24 sydd hefyd i'w gweld ar y wefan. Yn ystod 2023/24 byddwn yn parhau â'n gwerthusiad llawn o'n hamcanion cyn gosod amcanion newydd ar gyfer 2024-2028, yn unol â chylch adrodd pedair blynedd Llywodraeth Cymru a chyrff noddedig eraill.

Rydym wedi ymrwymo i wella ein dull cyffredinol ar gyfer cynnal asesiadau effaith integredig ac i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn llywio ein penderfyniadau polisi. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, ac er mwyn paratoi ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, byddwn yn datblygu pecyn cymorth mewnol ar gyfer llunio polisi dros y flwyddyn i ddod. Wrth ddatblygu'r pecyn cymorth hwn, byddwn yn adolygu'r ffordd yr ydym yn cynnal asesiadau effaith ac yn ystyried sut y gall y ddyletswydd lles ddarparu fframwaith integreiddio allweddol ar gyfer pob asesiad o effaith.

### Casgliad

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru, rwy'n cadarnhau bod y datganiadau a wneir yn yr adroddiad hwn yn gywir ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Ni fu unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu sylweddol, a chadarnhaf fod systemau

cadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion polisi'r sefydliad.

| | |
|---|---|
| **Llofnod**<br><br>*Philip Blaker* | **Philip Blaker**<br>Swyddog Cyfrifyddu<br>21 Medi 2023 |

# Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff

## Polisi tâl cydnabyddiaeth

Cyflogir cyflogeion Cymwysterau Cymru ar delerau ac amodau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn cydredeg â bandiau a graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Mae dilyniant drwy'r graddfeydd cyflog ar sail cynyddran flynyddol, yn amodol ar berfformiad boddhaol. Caiff newidiadau i strwythur cyflogau pob cyflogai (gan gynnwys y Bwrdd Gweithredol) eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, a rhaid i unrhyw newidiadau i'n dull o dalu gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog Addysg.

Mae'r pecyn tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar ôl eu penodi, cynigir dewis o ddau fath o bensiwn i gyflogeion: 'Alpha' (cynllun cyfartaledd gyrfa) a 'Partnership', sy'n drefniant cyfraniadau diffiniedig. Mae manylion Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn http://www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Telir ffioedd a chostau teithio’r Bwrdd yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

## Tâl cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn – uwch swyddogion ac aelodau'r Bwrdd

Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion buddiannau tâl a phensiynau uwch swyddogion ac Aelodau'r Bwrdd sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli ein prif weithgareddau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

| Cyfanswm cydnabyddiaeth fel ffigur unigol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | | | 2021-22 | | |
| Aelodau Anweithredol | Ffioedd (band) £'000 | Buddion Pensiwn £ | Cyfanswm £'000 | Ffioedd (band) £'000 | Buddion Pensiwn £ | Cyfanswm £'000 |
| Cadeirydd David B Jones OBE DL | 20-25 | - | 20-25 | 20-25 | - | 20-25 |
| David W Jones | 0-5 | - | 0-5 | 5-10 | - | 5-10 |
| Jayne Woods | 5-10 | - | 5-10 | 5-10 | - | 5-10 |
| Anne Marie Duffy OBE | 5-10 | - | 5-10 | 5-10 | - | 5-10 |
| Douglas Blackstock | 5-10 | - | 5-10 | 5-10 | - | 5-10 |
| Graham Hudson | 0-5 | - | 0-5 | 0-5 | - | 0-5 |
| Hannah Rowan (Hannah Burch gynt) | 0-5 | - | 0-5 | 0-5 | - | 0-5 |
| Michael Griffiths | 5-10 | - | 5-10 | 5-10 | - | 5-10 |
| Sharron Lusher MBE DL | 0-5 | - | 0-5 | 0-5 | - | 0-5 |
| Julie Brannan | 5-10 | - | 5-10 | 0-5 | - | 0-5 |
| Yr Athro John Latham CBE | 5-10 | - | 5-10 | 0-5 | - | 0-5 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

* Sharron Lusher - gadawodd y bwrdd dros dro ym mis Gorffennaf 2022
Mae 'ffioedd' yn cynnwys ad-dalu treuliau teithio i Cymwysterau Cymru ac oddi wrtho gan fod y rhain, yn unol â gofynion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn cael eu trin fel buddion trethadwy.

| **Cyfanswm cydnabyddiaeth fel ffigur unigol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2022-23** | | | **2021-22** | | |
| **Swyddogion Gweithredol** | **Cyflog (band) £'000** | **Buddion Pensiwn** (i'r £1,000 agosaf) | **Cyfanswm £'000** | **Cyflog (band) £'000** | **Buddion Pensiwn** (i'r £1,000 agosaf) | **Cyfanswm £'000** |
| **Prif Weithredwr** Philip Blaker | 135-140 | 48,000 | 180-185 | 130-135 | 47,000 | 175-180 |
| **Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio** Jo Richards | 85-90 | 74,000 | 160-165 | 85-90 | 30,000 | 115-120 |
| **Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol** Alison Standfast | 85-90 | -10,000 | 75-80 | 85-90 | 25,000 | 110-115 |
| **Cyfarwyddwr - Polisi a Diwygio Cymwysterau** Cassy Taylor | 75-80 | -5,000 | 70-75 | 80-85 | 16,000 | 95-100 |
| **Cyfarwyddwr - Polisi a Diwygio Cymwysterau** Emyr George | 75-80 | 31,000 | 105-110 | 75-80 | 29,000 | 100-105 |
| **Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu** Ashok Ahir | 75-80 | 31,000 | 105-110 | 5-10 | 2,000 | 5-10 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfansau eraill sy'n destun trethiant y DU. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed ac felly fe'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

Ni wnaed unrhyw fuddion mewn nwyddau na thaliadau bonws yn 2022-23.

Cyfrifir y ffigurau 'buddion pensiwn' uchod at ddibenion datgelu, gan ein gweinyddwyr pensiynau. Cyfrifir y ffigurau hyn fel y 'cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn' (gweler tabl Buddion Pensiwn 'Uwch Weithwyr' isod) wedi'i luosi ag 20, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai cyfraniadau a wnaed gan y cyflogai yn ystod y cyfnod.

Mae'r ffigurau negyddol ar gyfer budd-daliadau pensiwn yn ymwneud â'r swyddogion hynny sydd â rhywfaint o aelodaeth yn un o Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (yn seiliedig ar gyflog terfynol), lle nad yw'r codiad cyflog blynyddol wedi bod yn ddigon i wrthbwyso chwyddiant. Yn yr achosion hyn, mae ein gweinyddwyr pensiynau wedi cyfrifo gostyngiad yn hytrach na chynnydd o ran budd-daliadau pensiwn.

| Buddiannau Pensiwn Uwch Gyflogeion | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **Pensiwn Cronedig ar oedran pensiwn fel ar 31 Mawrth 2023 £'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn £'000** | **CETV ar 31 Mawrth 2023 £'000** | **CETV ar 31 Mawrth 2022 £'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000** |
| **Prif Weithredwr** Philip Blaker | 20-25 | 2.5-5 | 337 | 282 | 28 |
| **Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio** Jo Richards | 20-25 | 2.5-5 | 286 | 223 | 39 |
| **Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol** Alison Standfast | 30-35 | 0 | 579 | 536 | -16 |
| **Cyfarwyddwr - Polisi a Diwygio Cymwysterau** Cassy Taylor | 40-45 | 0-2.5 | 728 | 668 | -16 |
| **Cyfarwyddwr - Polisi a Diwygio Cymwysterau** Emyr George | 15-20 | 0-2.5 | 187 | 162 | 10 |
| **Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu** Ashok Ahir | 5-10 | 0-2.5 | 103 | 76 | 18 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar gyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn Gwladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd pob gwas sifil newydd ag alpha, yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth. Cyn y dyddiad hwnnw, cyfranogodd gweision sifil ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, gyda chost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar wahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i

alpha yn cael eu ‘bancio’, gyda'r rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad (prynu arian) gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer cynllun premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas, cynllun hybrid yw classic plus gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â chynllun classic a buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel yng nghynllun premium. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) caiff cyfrif pensiwn enilledig yr aelod ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yng nghynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i gynllun nuvos, ond mai 2.32% yw'r gyfradd gronni. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae’r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy’n rhan o’r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes ar oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o gynlluniau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun ond sylwer y gall rhan o’r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Mae manylion pellach trefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn http://www.civilservicepensionscheme.org.uk.

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi'i asesu gan actwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Datgeliadau cyflog teg

Mae hefyd yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Dangosir hyn isod.

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol canolrifol yn parhau i fod o fewn ein gradd gyflog staff Band 4. Roedd y cynnydd o 4% yng nghyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol canolrifol yn bennaf oherwydd dyfarniad cyflog 2022-23.

| Tâl | Cyflog a Buddion | | Cyflog | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| Cydnabyddiaeth ariannol band yr enillwyr mwyaf (£'000) | 135-140 | 130-135 | 125-130 | 120-125 |
| % o newid ers y flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr ar y cyflogau uchaf | 2% | 0% | 2% | 0% |
| Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ganolrifol (£) | 45,970 | 44,200 | 45,970 | 44,200 |
| % o newid ers y flwyddyn ariannol flaenorol i'r gweithwyr yn gyffredinol | 4% | 1% | 4% | 1% |
| Cyflog 25ain Canradd (£) | 39,690 | 35,180 | 39,690 | 35,180 |
| Cymhareb Gyflog 25ain Canradd | 3.46 | 3.77 | 3.21 | 3.48 |
| Cyflog Canradd Canolrifol (£) | 45,970 | 43,858 | 45,970 | 43,858 |
| Cymhareb Gyflog Canolrifol | 2.99 | 3.00 | 2.77 | 2.77 |
| Cyflog 75ain Canradd (£) | 52,423 | 47,470 | 52,423 | 47,470 |
| Cymhareb Gyflog 75ain Canradd | 2.62 | 2.79 | 2.43 | 2.58 |
| **Ystod y gydnabyddiaeth ariannol i staff:** | | | | |
| Cyflogai ar y cyflog uchaf (£'000) | 135-140 | 130-135 | 125-130 | 120-125 |
| Cyflogai ar y cyflog isaf (£'000) | 20-25 | 20-25 | 20-25 | 20-25 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

### Adroddiad staff

Er na fu newid i'n strwythur, sy'n cynnwys pedair cyfarwyddiaeth, gwelwyd newidiadau oherwydd trosiant, rhywfaint o dwf i gyflawni blaenoriaethau gweithredol fel diwygio'r cwricwlwm, a recriwtio i gefnogi hyn. Un newid sylweddol eleni fu ein symudiad tuag at weithio hybrid ym mis Mai/Mehefin 2022. Ar 31 Mawrth 2023, cyfrifwyd bod gennym 103 aelod staff, o'i gymharu â 87 ar gyfer y flwyddyn flaenorol; mae'r ffigur cyfwerth ag amser llawn (FTE) wedi cynyddu o 94.73 yn 2022 i 101.01 yn 2023. Hefyd, roedd gennym un secondiad mewnol yn y swydd, ac un gweithiwr dros dro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (cyfanswm o 105).

Mae nifer y staff a'r aelodau cyfwerth ag amser llawn yn amrywio yn ystod y flwyddyn, wrth i ni ymateb i drosiant a recriwtio yn briodol. Amlinellir ein nifer cyfartalog o gyflogeion yn ystod y 12 mis diwethaf, ynghyd â chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, yn y tabl isod:

| Blwyddyn | Cyfrif cyfartalog | Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) cyfartalog |
|---|---|---|
| 2022-2023 | 97.7 | 96 |
| 2021-2022 | 95.5 | 94.3 |
| 2020-2021 | 90.1 | 89.1 |
| 2019-2020 | 81.6 | 80.2 |
| 2018-2019 | 77.3 | 76.61 |
| 2017-2018 | 78.5 | 76.14 |
| 2016-2017 | 72 | - |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ymunodd 20 o weithwyr newydd â'n sefydliad ar ystod o wahanol lefelau, yn bennaeth tîm neu'n gynorthwyydd swyddfa, ac roedd deg o'r penodiadau hyn ar sail cyfnod penodol, naill ai i ôl-lenwi bylchau mamolaeth neu o ganlyniad i gyllid cyfnod penodol i gyflawni'r agenda diwygio cymwysterau. Yn fuan yn 2023, llwyddom gydgrynhoi ein cyllid dros dro ar gyfer y gwaith diwygio o fewn un gyllideb graidd, ac wedi hynny cafodd y rhai a benodwyd ar sail tymor penodol i gyflawni rolau sydd ag angen tymor hwy eu cadarnhau fel contractau parhaol. Mae hyn wedi arwain at newid sylweddol yng nghyfran y gweithwyr sydd ar gontractau parhaol a rhai tymor penodol.

Mae ein cyfradd trosiant wedi aros yn gyson ar y cyfan, 14.7% y llynedd o'i gymharu â 14.3% yn y flwyddyn ariannol hon (14.6% FTE). Rydyn ni'n adolygu trosiant yn rheolaidd ac mae'r cyfraddau'n amrywio yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 14 o weithwyr wedi gadael y sefydliad. Cynhelir cyfweliadau ymadael â phawb sy'n gadael, ac roedd gan weithwyr wahanol resymau dros adael, ac ni chlywyd unrhyw beth i beri pryder. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi cynnal 17 o ymarferion recriwtio allanol, rhai ohonynt ar gyfer sawl swydd, a chwe chyfle datblygu mewnol. Rydym hefyd wedi gweld symudiadau mewnol o ganlyniad i gyfleoedd datblygu dros dro a hysbysebwyd yn fewnol er mwyn cyflenwi dros gyfnodau mamolaeth a seibiant gyrfa.

Fel arfer, rydyn ni'n hysbysebu cyfleoedd cyfnod penodol parhaol a hirdymor yn allanol, a gall ymgeiswyr mewnol wneud cais drwy'r llwybr hwnnw. Rydyn ni'n gweithredu dull o sicrhau cyfweliad i bob ymgeisydd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer ystyriaeth mewn cyfweliad ac sy'n nodi eu bod yn anabl. Rydyn ni'n cynnal ymarferion mewnol ar gyfer cyfleoedd datblygu tymor byr, sy'n cwmpasu absenoldeb mamolaeth neu waith prosiect penodol. Mae'r penderfyniad i recriwtio yn cael ei wneud gan ein Bwrdd Rheoli. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ystyried a oes gennym ddigon o ymgeiswyr mewnol i warantu ymarfer mewnol cystadleuol; ni fabwysiadwyd y dull hwn gennym o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bu ymarferion recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf ar draws y pedair Cyfarwyddiaeth o fewn y sefydliad: Rheoleiddio, Polisi a Diwygio Cymwysterau, Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac Adnoddau Corfforaethol.

Mae ein gweithlu yn cynnwys 94% o gyflogeion ar gontractau parhaol (o gymharu â 88% ar 31 Mawrth 2022), 6% ar gontractau cyfnod penodol. Ar hyn o bryd mae gennym un secondiad mewnol fel rhan o raglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan Academi Cymru; dyma eu hail flwyddyn, a'r olaf, o'r rhaglen ar ôl iddynt dreulio'r flwyddyn gyntaf gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydyn ni'n parhau i fod yn agored i secondiadau a bydd y

trefniadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio lle maen nhw’n cynnig y cyfle i ymgyfnewid â sefydliadau eraill a gwneud y defnydd gorau o sgiliau, yn enwedig mewn meysydd arbenigedd proffesiynol.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi defnyddio staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag neu waith tymor byr nad oedd secondiad neu benodiad cyfnod penodol yn addas ar eu cyfer. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi penodi tri pherson ar gytundebau asiantaeth i ymgymryd â rolau diffiniedig. Ar 31 Mawrth, roedd un contract asiantaeth ar waith. Nid yw'r contractau dros dro hyn wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau ar gyfer cyfrif pennau neu gyfwerth ag amser llawn.

| | Benyw | Gwryw | |
|---|---|---|---|
| Prentisiaeth | 0 | 1 | |
| Cyfnod penodol | 4 | 1 | |
| Parhaol | 68 | 29 | |
| | 72 | 31 | 103 |

Nifer staff ar 31 Mawrth 2023

Rydyn ni’n adolygu pob penodiad gyda'r rhai sydd wedi'u contractio i sicrhau cydymffurfiaeth ag IR35 (deddfwriaeth cyfryngwyr).

### Dysgu a datblygu

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu gweithwyr. Nodir anghenion penodol naill ai drwy ein cynlluniau busnes, ein huwch reolwyr neu drwy drafodaethau perfformiad unigol. Gellid bodloni gofynion unigol gyda hyfforddiant ffurfiol, drwy gael at wahanol gyfleoedd neu drwy weithio ar draws timau o fewn ein sefydliad.

Mae rhywfaint o'n hyfforddiant yn diwallu angen corfforaethol neu statudol, ac fe'i cyflwynir ar draws y sefydliad. Eleni, cynhaliwyd hyfforddiant gorfodol ar-lein ar gyfer codi a chario, diogelwch tân, cymorth cyntaf a risg i'r holl staff. Ymgymerodd cyflogeion â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch ar-lein hefyd, sy’n rhywbeth y maen nhw’n ei gwblhau bob blwyddyn.

Yn ystod gwanwyn a haf 2020, arweiniodd Cymwysterau Cymru grŵp craidd o bedwar corff noddedig (Chwaraeon Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a CCAUC) i gaffael, datblygu a chyflwyno rhaglen Arwain a Rheoli a fyddai'n diwallu anghenion ein sefydliadau a'r rhwydwaith cyrff noddedig ehangach. Yn 2022-2023 lansiwyd pedair carfan, dwy Arweinyddiaeth Strategol a dwy Hanfodion Rheoli Llinell. Mae'r ddwy yn cwmpasu elfennau ymarferol o reoli, gan sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau statudol. Mae'r hyfforddiant yn dal i gael ei gyflwyno ar-lein, neu’n hybrid ar brydiau, lle daw cyfranogwyr at ei gilydd yn ogystal â chael sesiynau ar-lein. Mae 58% o'n cyflogeion sydd â rôl reoli neu arwain naill ai wedi cwblhau neu ar ganol rhaglen, rydym hefyd wedi hyfforddi pum gweithiwr sy'n â’u bryd ar rolau rheoli. Mae'r rhaglenni wedi bod yn llwyddiannus o ran meithrin sgiliau, gyda rhai gweithwyr yn cydnabod hyn yn eu hadborth ar gyfer yr arolwg staff, ac o ran meithrin cysylltiadau rhwng cyfoedion ar draws sector y cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Rydyn ni’n cefnogi datblygiad personol, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi parhau i gefnogi tri chyflogai mewn dysgu addysg uwch, gan gynnwys Gradd Meistr mewn Addysg a Doethuriaeth Broffesiynol mewn Addysg.

Mae cyflogeion wedi derbyn hyfforddiant ac wedi mynychu cynadleddau allanol er mwyn datblygu a gwella eu sgiliau proffesiynol ac i gynnal eu DPP mewn meysydd fel asesu, caffael, llywodraethu corfforaethol, Adnoddau Dynol, cyllid, ymchwil a chyfathrebu. Rhoddwyd hyfforddiant sgiliau cyflwyno i weithwyr bandiau is, a hynny mewn ymateb i'w hanghenion, ac ar hyn buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chronfa Ddysgu Undeb Cymru. Mae'r cyflogeion wedi mynychu sesiynau allanol sy’n ymwneud ag egwyddorion asesu, dylunio arolygon a holiaduron, cyfryngau cymdeithasol a hyfforddiant hygyrchedd a diogelu yn ogystal â chynadleddau a gyflwynir gan y Gymdeithas Asesu Addysgol (AEA) neu Fforwm San Steffan. Teithiodd dau weithiwr i Fecsico i gyflwyno yn y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Asesu Addysgol.

Rydym wedi rhoi hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn ogystal â dechrau rhaglen hyfforddiant ar gydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer yr holl staff ac Aelodau'r Bwrdd.

Mae cyflogeion hefyd yn cynnal sesiynau '*Lite Bite*' mewnol er mwyn rhoi gwybod i'r sefydliad ehangach am ddarnau o waith y mae timau neu unigolion yn gweithio arnynt, i egluro polisïau sefydliadol ac i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt. Mewn ymateb i adborth gan weithwyr a'u hangen i gael cysylltiadau ar draws y sefydliad, ddiwedd Mawrth cynhaliwyd ein diwrnod cyflogeion cyntaf ers 2019. Yn y digwyddiad, daeth y rhan fwyaf o'n sefydliad ynghyd i ddysgu mwy am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i drafod sut y gallwn ni i gyd yn ein gwahanol rolau gymryd rhan. Cafwyd cyfle i ddysgu mwy am ein gilydd yn y sesiwn hefyd, i gael ein gweld fel unigolion â sgiliau gwahanol ac i ystyried sut y gallwn gydweithio'n effeithiol.

Cefnogwyd aelodau undebau llafur hefyd i fynychu cyrsiau i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r gallu i ymgymryd â'u rolau undeb.

### Bandiau cyflog a rhywedd

Mae'r tablau canlynol yn amlinellu cyfansoddiad ein gweithwyr ar 31 Mawrth 2023, yn ôl eu band parhaol, rhywedd, oedran a math o gontract (oriau amser llawn yw 37 awr yr wythnos, contractau rhan-amser yw'r rhai y cytunwyd arnynt gyda llai na 37 awr).[7] Ar 31 Mawrth 2023, roedd gennym wyth o weithwyr ar gontract o lai na 37 awr, sy'n gynnydd o 1 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond yn llai na ffigwr 2020 pan oedd gennym 10 o weithwyr rhan-amser. Dim ond un gweithiwr rhan-amser gwrywaidd a gyflogir gennym, gyda saith o’r gweithwyr rhan-amser yn fenywaidd. Mae pedwar o'n gweithwyr rhan-amser ym mand cyflog 4, yn y canol yn ein sefydliad, mae dau ar lefel pennaeth tîm (band 5), a’r ddau arall mewn bandiau cyflog is. Mae'r cyfrannau'n gymharol ddinewid ers 2022, gyda dim ond un gweithiwr rhan-amser benywaidd ychwanegol.


Rydyn ni’n hyrwyddo ein dull gweithio hyblyg gyda'r holl weithwyr felly efallai nad yw rhai cyflogeion yn teimlo bod angen iddyn nhw wneud cais ffurfiol i leihau oriau ac efallai y byddan nhw’n dal i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar oriau llawn amser. Yn ein harolwg

o weithwyr yn 2022, cytunodd 89% o gyflogeion eu bod yn gallu sicrhau cydbwysedd da rhwng eu gwaith a'u bywyd preifat, dyma gynnydd o 4% o gymharu â 2021 a chynnydd o 12% o gymharu â 2020.


Mae mwy o’n gweithwyr yn fenywod o hyd, sy'n gynrychioladol o’r sector addysg ehangach. O ran ystadegau recriwtio, rydyn ni’n tueddu i gael mwy o geisiadau gan ymgeiswyr benywaidd ym mhob band. Rydyn ni’n adolygu'r wybodaeth hon yn rheolaidd ac yn ystyried ein dull hysbysebu i ehangu ein hamrywiaeth yn fwy cyffredinol.

### Rhywedd a math o gontract (2)


| Band | Benyw amser llawn | Benyw rhan-amser | Gwryw amser llawn | Gwryw rhan-amser | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3 | 1 | 2 | 0 | 6 |
| 2 | 5 | 1 | 1 | 0 | 7 |
| 3 | 16 | 0 | 4 | 0 | 20 |
| 4 | 28 | 3 | 12 | 1 | 44 |
| 5 | 9 | 2 | 5 | 0 | 16 |
| 6 | 2 | 0 | 5 | 0 | 7 |
| 7 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 8 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | 65 | 7 | 30 | 1 | 103 |




[2] Dengys y tabl fand parhaol (dan gontract) cyflogai. Nid yw'n adlewyrchu pan all cyflogai fod yn gweithio dros dro mewn band uwch, ac felly mae'n gwrthdaro â'r tabl ar t71, sy'n seiliedig ar gyflog gwirioneddol cyflogai eleni.




## Oedran




Bu mwy o symudiad eleni yn ein proffil oedran, gellid priodoli rhywfaint o hyn i weithwyr yn symud rhwng categorïau a rhywfaint i drosiant a recriwtio. Bu'r newid mwyaf arwyddocaol yn y grŵp 45-49, gyda chynnydd bach yn y grŵp 60+, a'r meysydd eraill yn aros yn gymharol sefydlog.

## Absenoldeb oherwydd salwch

Mae ein cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng dros y 12 mis diwethaf, a chollwyd cyfanswm o 471 diwrnod gwaith, o gymharu â 545.5 yn y flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 75.5 diwrnod. Sbardunwyd hyn gan ostyngiad mewn absenoldebau hirdymor. Bu mwy o absenoldebau tymor byr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 347 diwrnod wedi'u colli o'i gymharu â 284. Eleni roedd ein habsenoldeb Covid yn uwch, gyda chyfanswm o 101.5


diwrnod wedi'u colli mewn 38 absenoldeb, 96 diwrnod a gollwyd y llynedd. Mae symptomau annwyd a ffliw yn cyfrif am 37 o'r achosion, gyda 73.5 diwrnod gwaith wedi'u colli. Iechyd Meddwl oedd y rheswm am 143 diwrnod o absenoldeb, nid straen cysylltiedig â gwaith oedd achosion yr absenoldebau hyn.

4.8 diwrnod oedd lefel absenoldeb gyfartalog y flwyddyn, a gyfrifwyd gan ddefnyddio nifer cyfartalog staff y flwyddyn (97.7), mae hyn yn ostyngiad o 5.7 diwrnod y llynedd, ac mae'n dod â ni yn ôl at ffigur 2021 (4.7). O ddefnyddio FTE cyfartalog eleni, sef 96, cawn ffigwr o 4.9, sydd hefyd is na 5.8 y llynedd.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd cyfradd absenoldeb o 3.6% ar gyfer y sector cyhoeddus yn 2022, cynyddu o 0.6 pwynt canran ers 2021. Cyfradd absenoldeb gweithwyr y sector preifat yw 2.3%. Pan ddefnyddir 217 diwrnod gwaith fel sylfaen, ein cyfradd absenoldeb yw 2.2% - a hynny ar gyfer nifer cyfartalog y gweithwyr yn ogystal â chyfwerth ag FTE, sy'n dangos ein bod yn yr un ardal â chyfraddau'r sector preifat. Roedd y gyfradd ar gyfer Cymru, pob sector, hefyd yn 3.6% felly rydym yn is na'r ffigwr hwn.

### Cyfansymiau absenoldeb oherwydd salwch fesul mis

| Mis | 2019-2020 (ST) | 2019-2020 (LT) | 2020-2021 (ST) | 2020-2021 (LT) | 2021-2022 (ST) | 2021-2022 (LT) | 2022-2023 (ST) | 2022-2023 (LT) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebr | 14 | 0 | 32.5 | 0 | 17.5 | 43 | 20.5 | 0 |
| Mai | 8 | 0 | 23 | 0 | 17 | 8 | 12.5 | 0 |
| Meh | 6 | 20 | 11 | 0 | 9 | 22 | 29 | 0 |
| Gorff | 6 | 22 | 9 | 0 | 13 | 22 | 41 | 0 |
| Awst | 11.5 | 21 | 2 | 20 | 16 | 22 | 4 | 0 |
| Medi | 28 | 37 | 2 | 0 | 14 | 22 | 21 | 22 |
| Hyd | 9 | 42 | 8 | 0 | 49 | 28 | 49 | 34 |
| Tach | 6 | 40 | 22 | 39 | 52 | 22 | 43.5 | 24 |
| Rhag | 18.5 | 40 | 2 | 45 | 13 | 31 | 52 | 22 |
| Ion | 26 | 50 | 41 | 60 | 52.5 | 10 | 34 | 22 |
| Chwe | 21 | 35 | 16 | 35 | 10.5 | 19.5 | 9 | 0 |
| Maw | 12 | 15 | 23 | 33 | 20.5 | 12 | 31.5 | 0 |
| **Cyfanswm** | **166** | **322** | **191.5** | **232** | **284** | **261.5** | **347** | **124** |




### Lles gweithwyr

Rydyn ni wedi ymrwymo i annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Rydyn ni’n contractio darparwr iechyd galwedigaethol i'n helpu, ac i:

- gynnig cymorth a chyngor i weithwyr
- cefnogi gallu gweithiwr i weithio
- hwyluso dychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus ar ôl absenoldeb hirdymor

Mae Rhaglen Cymorth i Weithwyr ar gael i bob cyflogai, a gall gynnig cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion. Mae hyn ar gael i ddechrau drwy wasanaeth ffôn neu drwy'r rhyngrwyd ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, ac mae'n gwbl gyfrinachol. Gall gweithwyr hefyd gael mynediad at gwnsela am ddim drwy'r rhaglen hon.

Rydym bob amser wedi ceisio creu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi iechyd a lles gweithwyr. Yn dilyn y pandemig, gwnaethom geisio ymgorffori ffyrdd o weithio a oedd yn cadw buddion hyblygrwydd a gweithio o bell ond a oedd hefyd yn annog ymgysylltiad gweithwyr. Mabwysiadwyd egwyddorion ar gyfer gweithio yn y swyddfa – cydweithio, creadigrwydd, gofal a chymuned. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gadarnhau ein polisi gweithio hybrid newydd, gan roi ystyriaeth i farn ein gweithwyr a'n hundebau llafur. Mae ein polisi hybrid yn annog gweithwyr llawn amser i dreulio 2 ddiwrnod yn y swyddfa a 3 diwrnod yn gweithio gartref. Pan wnaethom symud tuag at weithio hybrid, anogwyd penaethiaid timau i drafod sut hoffai pobl weithio, gan gydnabod dewisiadau unigol a’u cydbwyso'r ag anghenion y tîm a'r gwaith sydd angen ei wneud. Cytunodd nifer o dimau ar y ffyrdd hyn o weithio drwy lunio siarteri tîm. Rydym hefyd wedi addasu'r swyddfa er mwyn cefnogi'r ffyrdd newydd o weithio.

Yn ystod yr Haf, daeth ein holl weithwyr ynghyd i wneud gweithgareddau tîm yn yr awyr agored, gan roi cyfle i aelodau mwy diweddar o’r timau dreulio amser gyda gweithwyr sydd gyda ni ers tro ac i feithrin cysylltiadau a pherthnasau newydd.

Cafodd yr hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ei gynnal eto eleni, ac erbyn hyn mae gennym un ar ddeg o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Rydym hefyd wedi cynnal

hyfforddiant i gefnogi lles economaidd, roedd hyn yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ariannol a chynllunio ar gyfer ymddeol. Gall gweithwyr hefyd dderbyn hyfforddiant sy'n ymwneud â'u pensiynau.

Mae ein grŵp gweithwyr, QWEST, yn trefnu cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar themâu lles, gan gyhoeddi gwybodaeth ac annog cyfranogiad gweithwyr. Y grŵp yma sy'n arwain ar ein hachrediad Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac eleni cawsom ein hailasesu ar gyfer eu Safon Iechyd Corfforaethol, gan dderbyn safon efydd unwaith eto. Eleni, bu'r gweithgareddau casglu arian yn cefnogi elusen canser plant 'Latch' a ddewiswyd gan weithwyr.

## Crynodeb o gostau staff 2022-23

| | 2022-23 | | | | | 2021-22 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflogir yn Barhaol | Staff Dros Dro | Eraill Staff wedi'u Secondio | Staff Asiantaeth | Cyfanswm | Staff a Gyflogir yn Barhaol | Staff Dros Dro | Eraill Staff wedi'u Secondio | Staff Asiantaeth | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyflogau** | 4,148 | 373 | 2 | - | 4,523 | 3,899 | 361 | - | - | 4,260 |
| **Costau Nawdd Cymdeithasol** | 497 | 42 | - | - | 539 | 438 | 37 | - | - | 475 |
| **Costau Pensiwn Eraill** | 1,160 | 101 | - | - | 1,261 | 1,068 | 98 | - | - | 1,166 |
| **Costau Asiantaeth** | - | - | - | 199 | 199 | - | - | - | 157 | 157 |
| **Cyfanswm** | **5,805** | **516** | **2** | **199** | **6,522** | **5,405** | **496** | **-** | **157** | **6,058** |

Mae'r adran hon yn destun archwiliad.

Ni wnaed unrhyw ymrwymiadau 'oddi ar y gyflogres' yn 2022-2023.

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2022-23.

Aeth Cymwysterau Cymru i'r costau ymgynghori canlynol yn ystod 2022-23:

| Ymgynghori - 2022-23 | | |
|---|---|---|
| **Ymgynghorydd** | **Gwaith Ymgynghori a Wnaed** | **Cyfanswm £** |
| Halpin Partnership Limited - Adolygiad Bwrdd | Cynhaliodd Halpin Partnership adolygiad o effeithlonrwydd y Bwrdd. | 19,500 |
| Four Communications | Comisiynwyd Four Communication i ymgynghori ynghylch cyfathrebu lansiadau dwyieithog a hyrwyddo gwahanol ddiwygiadau. | 5,760 |
| Active Learning Team | Comisiynwyd Active Learning Team i ymgynghori ac i roi hyfforddiant ynghylch Cydraddoldeb a Chynhwysiant o fewn y sefydliad. | 23,900 |

## Cydraddoldeb

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu'r amcanion yr ydym wedi'u gosod i ni'n hunain i ategu ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Mae'r cynllun yn cwmpasu pob agwedd ar ein gweithrediadau, gan gynnwys staff, cyfleusterau, gwariant, datblygu a rheoleiddio cymwysterau, ymgysylltu â rhanddeiliaid a monitro. Mae hyn yn cynnwys monitro ein perfformiad ar gyflog cyfartal rhwng y rhywiau.

Y cyflog canolrifol ar 31 Mawrth 2023 (gan eithrio cyflog y Prif Swyddog Gweithredol) yw £45,970, o gymharu â £44,200 yn 2022. Cymhareb cyflog y Prif Swyddog Gweithredol (ar ganol y band cyflog) i'r cyflog canolrifol yw 2:99 yn 2023, o gymharu â 3:00 yn 2022.

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein safbwynt ar gyflog cyfartal ddiwedd mis Mawrth 2023.[8]

[3] Mae'r tabl yn adlewyrchu cyflog gwirioneddol cyflogai yn y flwyddyn ariannol hon; felly mae'n ystyried tâl ychwanegol a dderbyniwyd am weithio dros dro hyd at fand uwch. Mae'r rhifau felly'n wahanol i'r rhai yn y tabl ar dudalen [65].

| | **Band Cyflog** | **Menywod** | **Dynion** | **Bwlch Cydnabyddiaeth 2022/23 (- os talwyd llai o gyflog i fenywod )** | **Bwlch Cydnabyddiaeth 2021/22 (- os talwyd llai o gyflog i fenywod )** | **Gwahaniaeth** | **Bwlch Cydnabyddiaeth 2022/23 fel % o dâl dynion (- os talwyd llai o gyflog i fenywod )** | **Bwlch Cydnabyddiaeth 2021/22 fel % o dâl dynion (- os talwyd llai o gyflog i fenywod )** | **Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cymedr | **1** | £24,753 | £23,885 | £868 | -£668 | £1,536 | 6% | -3% | ↑ |
| *canolrif* | | *£25,620* | *£23,885* | £1,735 | £0 | £1,735 | Dim bwlch | Dim bwlch | - |
| | | | | | | | | | |
| cymedr | **2** | £29,085 | £30,610 | -£1,525 | £710 | -£2,235 | -5% | 3% | ↓ |
| *canolrif* | | *£29,520* | *£30,610* | -£1,090 | £1,305 | -£2,395 | -4% | Dim bwlch | ↓ |
| | | | | | | | | | |
| cymedr | **3** | £35,532 | £35,040 | £492 | -£645 | £1,137 | 1% | -2% | ↑ |
| *canolrif* | | *£39,690* | *£35,555* | £4,135 | -£1,490 | £5,625 | 12% | -4% | ↑ |
| | | | | | | | | | |
| cymedr | **4** | £46,652 | £47,488 | -£835 | -£491 | -£344 | -2% | -1% | ↓ |
| *canolrif* | | *£49,370* | *£49,370* | £0 | £0 | £0 | Dim bwlch | Dim bwlch | - |
| | | | | | | | | | |
| cymedr | **5** | £59,838 | £61,526 | -£1,688 | £609 | -£2,297 | -3% | 1% | ↓ |
| *canolrif* | | *£59,480* | *£63,900* | -£4,420 | £0 | -£4,420 | -7% | Dim bwlch | ↓ |
| | | | | | | | | | |
| cymedr | **6** | £78,500 | £78,500 | £0 | £0 | £0 | Dim bwlch | Dim bwlch | - |
| *canolrif* | | *£78,500* | *£78,500* | £0 | £0 | £0 | Dim bwlch | Dim bwlch | - |
| | | | | | | | | | |
| cymedr | **Tîm Gweithredol** | £88,942 | | | | | | | |
| *canolrif* | | *£88,942* | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| cymedr | **Prif swyddog gweithredol** | | £135,397 | | | | | | |
| *canolrif* | | | *£135,397* | | | | | | |

O'r 20 o weithwyr newydd a ymunodd â ni yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd 17 yn fenywod. Gwneir penodiadau o fewn bandiau cyflog fel arfer, ond anaml iawn bydd hyn yn digwydd ar lefelau uwch y raddfa, ac mae hyn yn effeithio ar ein bwlch taliadau, yn enwedig pan fydd cyfran uwch o fenywod yn cael eu recriwtio, gyda’r dynion yn y band cyflog wedi bod gyda'r sefydliad ers cyfnod hirach ac wedi cyrraedd uchafswm y band cyflog. Mae gweithwyr yn symud trwy ein graddfeydd cyflog ar ben-blwydd eu penodiad i'r rôl, felly gall y darlun newid yn ystod y flwyddyn gan fod gweithwyr yn symud trwy’r graddau ar adegau gwahanol.

Gwelwyd llai o weithwyr newydd ym mand cyflog 3, ac mae 55% o'r gweithwyr yn y band ar yr uchafswm. Mae 80% o'r gweithwyr yn y grŵp hwn yn fenywod.

Mae'r gwahaniaethau eraill a nodwyd ym mand 2, 4 a 5 o ganlyniad i recriwtio gweithwyr newydd.

**Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, ein bwlch cyflog rhwng ar sail rhywedd oedd 14.8% (o'i gymharu â 16.3% yn 2022).**

Mae’r bwlch cyflog wedi lleihau ym mandiau cyflog 1 a 3. Yn y ddau fand hyn, mae gennym fwy o ferched na dynion, ond mae cyfran uwch o'r merched hyn bellach ar uchafswm y band cyflog. Mae'r newid hwn wedi creu gostyngiad cyffredinol yn ein bwlch cyflog. Rydyn ni’n monitro ein gwybodaeth am gyflogau’r rhywiau ochr yn ochr â'n data recriwtio ac mae gennym amcan i wella amrywiaeth ein gweithlu gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig.


Mae ein hamcan o ran rhywedd yn canolbwyntio ar recriwtio ac, yn benodol, sicrhau bod y rolau a hysbysebwn yn ddeniadol i'r naill ryw neu'r llall ac i bobl â nodweddion gwarchodedig eraill, er mwyn annog gweithlu amrywiol. Rydyn ni’n cyhoeddi ein data cydraddoldeb sector cyhoeddus mewn fformat agored ar ein gwefan.


**Y Gymraeg**

Rydyn ni’n adolygu lefel gallu ein gweithwyr yn y Gymraeg fel rhan o'n hymagwedd tuag at y Gymraeg a'n datblygiad sgiliau. Mae cyflogeion yn hunanasesu eu gallu ac yn graddio eu hunain ar raddfa o 1 (Rhugl) – 5 (Dim gallu) mewn perthynas â darllen, siarad, deall ac ysgrifennu.

Ar 31 Mawrth 2023, mae ein cofnodion yn nodi bod 18 o weithwyr (17.5%) wedi disgrifio eu hunain fel rhugl ym mhob un o'r pedwar maes (darllen, siarad, deall ac ysgrifennu), mae hyn yn gynnydd o 2 o'i gymharu â'r llynedd. Datganodd 23 (22%) nad oedd ganddynt unrhyw allu o gwbl, mae hyn yn welliant o'i gymharu â'r llynedd, pan oedd y ffigwr yn 44. Mae’n debyg bod hyn o ganlyniad i weithwyr yn adrodd yn well yn hytrach na chynnydd mewn lefelau sgiliau. Dywedodd 52 o weithwyr fod ganddynt rywfaint o allu ar draws o leiaf un neu fwy o'r meysydd. Rydym ni’n gofyn i weithwyr ddiweddaru eu gallu Cymraeg yn flynyddol gan y gall lefelau sgiliau newid, mae 10 o weithwyr sydd heb gyflwyno hunanasesiad o’u lefel iaith (mae 93 wedi gwneud).

Wrth recriwtio rydyn ni’n gwerthuso'r angen am allu yn y Gymraeg a chaiff hyn ei nodi yn y disgrifiad swydd cyhoeddedig. Gofynnir i weithwyr newydd adolygu a chadarnhau eu sgiliau wrth ymuno.




O ran aelodau ein Bwrdd, mae pedwar wedi hunanasesu eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, dau â gallu sylfaenol a phump heb unrhyw allu o gwbl.

Rydyn ni’n parhau i gefnogi gweithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg drwy ariannu hyfforddiant a darparu modiwlau e-ddysgu, yn ogystal â chymorth anffurfiol, ymarferol yn amgylchedd y swyddfa gan siaradwyr rhugl, sy'n annog ac yn rhoi mentoriaeth answyddogol i’r rheini sy'n dysgu. Eleni, rydym wedi cefnogi tri gweithiwr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ffurfiol, aeth dau ohonynt ar gwrs trochol wythnos o hyd gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rydym hefyd yn cefnogi gweithwyr i gymryd cyrsiau colegau addysg bellach. Rydym wedi archwilio cyfleoedd i weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill o faint tebyg i ddarparu hyfforddiant Cymraeg ar y safle, ac rydyn ni’n adolygu hyn yn gyson.

| **Llofnod**<br><br>*Philip Blaker* | **Philip Blaker**<br>Swyddog Cyfrifyddu<br>21 Medi 2023 |
|---|---|

**Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd**

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cymwysterau Cymru ar gyfer y flwyddyn sy’n diweddu ar 31 Mawrth 2023 o dan baragraff 33(2) o Atodlen 1 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifau Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, y datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Cymwysterau Cymru ar 31 Mawrth 2,023 a'i wariant net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2,015

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail ar gyfer barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol

am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn cael eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail gynyddol cyfrifyddu ar gyfer Cymwysterau Cymru i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail barhaus cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff sy'n cael eu harchwilio ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Cyfrifeg sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2,015.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- bod y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015; a
- Mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

**Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- nid yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan a archwiliwyd o'r Adroddiad Atebolrwydd yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifeg;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM yn cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Adroddiad Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifeg, mae'r Swyddog Cyfrifeg yn gyfrifol am:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifo'n ei benderfynu yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail barhaus o gyfrifo oni bai bod y Swyddog Cyfrifeg yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan gorff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

